



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Beth yw effaith gofal ar les plant? Adolygiad penodol o'r llynyddiaeth

Adroddiad Terfynol

**Beth yw effaith gofal ar les plant? Adolygiad
penodol o'r llenyddiaeth**

**Paratowyd ar gyfer Llywodraeth Cynulliad
Cymru**

**Cyflwynwyd gan gonsortïwm o Brifysgol Swydd Bedford, Prifysgol Brunel a
Phrifysgol Birmingham yn cynnwys:**

Dr. Donald Forrester
Prifysgol Swydd Bedford

Keith Goodman
Prifysgol Brunel

Christine Cocker
Prifysgol Middlesex

Charlotte Binnie
Cynorthwydd Ymchwil

Graham Jensch
Cynorthwydd Ymchwil

Cyswllt: Donald Forrester, Uned Ymchwil Lles Plant a Theuluoedd, Prifysgol Swydd
Bedford, Park Square, Luton LU1 3JU

E-bost: Donald.Forrester@beds.ac.uk

Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r llenyddiaeth ymchwil ar ganlyniadau lles i blant sy'n mynd i mewn i ofal cyhoeddus. Fe'i cynhaliwyd fel rhan o werthusiad o wasanaeth Opsiwn 2 (ymyrraeth a gynlluniwyd yn rhannol i leihau'r angen am ofal cyhoeddus). Y bwriad yw y bydd yr adolygiad hwn yn darparu cyd-destun er mwyn gallu deall ymgeisiadau i atal plant rhag mynd i mewn i ofal yn well. Fodd bynnag, daeth yr adolygiad yn fwy sylweddol, a'i oblygiadau yn fwy eang. Yn rhannol, mae hyn oherwydd bod yr adolygiad yn digwydd ar yr un pryd â chynigion llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiwygio'r system ofal yn y papur gwyn Care Matters a Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) yn datblygu gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant yng Nghymru. Mae'r adolygiad o'r ymchwil felly yn cynnig nifer o oblygiadau ar gyfer polisi ac arfer. Penderfynwyd felly y dylid ei gyflwyno fel adroddiad ar wahân, ond eto'n gysylltiedig.

Mae'r llenyddiaeth ryngwladol ar blant mewn gofal yn helaeth iawn. Canolbwynt yr adolygiad hwn yw astudiaethau Prydeinig a gyhoeddwyd rhwng 1991 (pan ddaeth y Ddeddf Plant bresennol i rym) a 2006 sy'n darparu gwybodaeth ar les plant mewn gofal dros amser, er bod astudiaethau tramor allweddol ac ymchwil cynharach pwysig yn cael eu hystyried hefyd. Mae tair prif ran i'r adolygiad, gyda nifer o isadrannau, fel a ganlyn:

1. Cyflwyniad i'r prif faterion o ran deall sut mae plant yn mynd i mewn i ofal cyhoeddus, yn aros yno ac yn ei adael;
2. Yr adolygiad o lenyddiaeth:
 - o Trafodaeth o astudiaethau Prydeinig allweddol rhwng 1970 a 1991 ;
 - o Trafodaeth o astudiaethau pwysig nad ydynt yn rhai Prydeinig;
 - o Adolygiad o astudiaethau Prydeinig rhwng 1991- 2006 oedd yn:
 - o Cymharu canlyniadau i blant aeth i mewn i ofal â'r canlyniadau i blant na wnaeth hynny;
 - o Edrych ar gynnydd plant mewn gofal dros amser;
 - o Cymharu oedolion a oedd wedi bod mewn gofal ag oedolion eraill a brofodd broblemau neu anhawster.
 - o Yna ceir sylwadau ar rai meysydd lle mae ymchwil gyfyngedig (lleoliadau â pherthynas a gofal preswyl yn benodol).
3. Trafodaeth o'r adolygiad llenyddiaeth ac argymhellion

1. Cyflwyniad i natur y system ofal

Darperir gofal cyhoeddus i tua 60,000 o blant yng Nghymru a Lloegr ar unrhyw adeg, ac mae tua 80,000 yn mynd i mewn i ofal yn ystod unrhyw flwyddyn arferol. Yng Nghymru ym mis Mawrth 2006 roedd 4,784 mewn gofal. Fodd bynnag, mae gan blant yrfaeod gofal gwahanol iawn - o fynd i mewn i ofal am gyfnod byr yn ystod argyfwng, i gyfnod mewn gofal ac yna sefyllfa barhaol arall fel mabwysiadu, i blant sy'n treulio rhan

sylweddol o'u plentyndod mewn gofal. Yn benodol, mae nifer o nodweddion gyrfaoedd gofal plant yn sefyll allan:

- Bydd 40% o'r plant sy'n dod i mewn i ofal yn gwneud hynny am lai na 6 mis;
- Dim ond tua 8% o'r plant sy'n mynd i mewn i ofal fydd yn cael eu mabwysiadu;
- Mae tua 13% o blant yn gadael gofal oherwydd eu bod yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 18 bob blwyddyn;
- Mae 30% o blant yn aros mewn gofal am 4 blynedd neu fwy.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gadael gofal er mwyn dychwelyd adref, a bydd llawer o'r plant hyn yn mynd yn ôl i mewn i ofal. O ganlyniad, mae hanner yr holl blant mewn gofal yn cael dau neu fwy o gyfnodau gofal, gyda rhai yn cael sawl cyfnod yno.

Yn gyffredinol, mae gan blant mewn gofal mwy o anawsterau seicolegol a chymdeithasol pan maent yn mynd i mewn i ofal na'r rhan fwyaf o blant. Mae'r rhan fwyaf wedi profi anfantais gymdeithasol ddifrifol, camdriniaeth ac esgeulustod a phroblemau eraill - yn cynnwys risg genetig uwch ar gyfer rhai anawsterau - y maent oll yn gysylltiedig â risg uchel o anhawster emosiynol ac ymddygiadol, problemau iechyd, gwaeth perfformiad addysgol a pherthnasoedd teuluol cymhleth.

Nid yw cymariaethau rhwng plant mewn gofal neu blant sy'n gadael gofal yn 18 oed â'r boblogaeth gyffredinol o'r holl blant felly yn briodol fel ffordd o archwilio effaith gofal ar les plant am ddau reswm pwysig. Yn gyntaf, mae llawer o blant sy'n mynd i mewn i ofal nad ydynt yn cael eu cynnwys yn llawer o'r cymariaethau hyn (er enghraifft, plant sy'n cael eu mabwysiadu neu sy'n dychwelyd adref yn gyflym). Yn ail, gallai'r anfantais sy'n bodoli fod yn gynnyrch anawsterau cyn mynd i mewn i ofal, neu ar ôl gofal, yn hytrach na'r system ofal ei hun. Mae hwn yn fater pwysig os ydym yn mynd i allu targedu ymyraethau yn effeithiol er mwyn atal yr anawsterau y mae'r plant hyn yn eu profi'n aml. Mae yna fodd bynnag fathau penodol o astudiaethau sy'n caniatáu i ni edrych ar fanylion y materion hyn, a'r rhain yw ffocws yr adran nesaf.

2. Adolygiad o lenyddiaeth ar ganlyniadau lles i blant sy'n mynd i mewn i ofal

2.1 Adolygiad cryno o astudiaethau Prydeinig rhwng 1970 a 1991

Nododd astudiaethau o'r 1960au a'r 1970au nad oedd gan lawer o blant mewn gofal gynlluniau cywir ac roedd hyn yn aml yn golygu bod plant yn "segura" mewn gofal heb bwrpas clir. Cyfrannodd hyn at ffocws llawer manylach ar wella cynllunio a chanlyniadau i blant mewn gofal.

Er gwaethaf y cyfyngiadau ymddangosiadol o fewn y system ofal, roedd astudiaethau ar y canlyniadau i blant oedd yn mynd i mewn i ofal yn galonogol ar y cyfan. Yn gyntaf, roedd mabwysiadu babanod yn tueddu i esgor ar ganlyniadau positif iawn i blant. (Mae mabwysiadu yn ddewis arall yn hytrach na gofal, ond mae'r broses o gael eu mabwysiadu fel arfer yn golygu bod plant yn mynd drwy'r system gofal cyhoeddus. Caiff ei gynnwys yn yr adolygiad oherwydd ei fod yn ddewis arall i blant yn hytrach nag aros gyda'u teuluoedd genedigol). Yn ail, roedd hyd yn oed plant oedd wedi'u hamlygu i ofal sefydliadol yn aml yn gwneud addasiadau positif wrth iddynt dyfu'n oedolion. Roedd hyn yn amlygu natur gwydnwch a'r gallu sydd gan blant a phobl ifanc i oresgyn profiadau anodd yn eu plentyndod os ydynt yn derbyn cefnogaeth briodol. Mae'n dangos hefyd nad yw'r profiad o dderbyn gofal o reidrydd mor niweidiol ag y tybir yn aml.

2.1 Adolygiad cryno o astudiaethau allweddol nad ydynt yn rhai Prydeinig

Roedd y llenyddiaeth tramor mwy diweddar ar ganlyniadau'r system ofal yn tueddu i fod yn bositif. Fel y gellir disgwyl, roedd plant aeth i mewn i ofal ac yna cael eu mabwysiadu yn tueddu i gael canlyniadau positif; fodd bynnag roedd awgrymiadau hefyd bod plant oedd yn mynd i mewn i ofal maeth yn dangos gwelliannau sylweddol mewn ymddygiad a lles emosiynol ac y cynhelir y rhain dros gyfnod sylweddol o amser. Mewn cyferbyniad, roedd plant a ddychwelodd adref o ofal yn tueddu i beidio â gwneud cystal â'r plant cymhariaeth mewn nifer o astudiaethau.

2.3 Astudiaethau Prydeinig 1991 – 2006

(a) Astudiaethau oedd yn cymharu canlyniadau i blant aeth i mewn i ofal â'r rheiny ar gyfer plant cymhariaeth na aeth i mewn i ofal

Dim ond dwy astudiaeth oedd yn darparu data ar hyn (gyda thrydydd a gyhoeddwyd yn 2007 a gynhwyswyd gennym). Awgrymodd dau o'r astudiaethau welliannau sylweddol i blant aeth i mewn i ofal o'u cymharu â'r rhai na aeth i mewn i ofal. Nododd un mai ychydig iawn o wahaniaeth oedd.

(b) Astudiaethau a edrychodd ar gynnydd plant mewn gofal dros amser

Cafodd un ar ddeg o astudiaethau eu cynnwys o fewn yr adran hon. Ffocws mwyafrif yr astudiaethau hyn oedd cynnydd plant mewn lleoliadau parhaol (fel mabwysiadu neu faethu hirdymor), er bod nifer llai yn ystyried effaith gofal maeth a rhai yn cwmpasu trawstoriad o blant mewn gofal.

Roedd y canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- Gwellodd lles plant dros amser ym mhob astudiaeth – pa fath bynnag o leoliad oedd ffocws yr ymchwil;
- Roedd tystiolaeth gref y gallai plant yr ystyriwyd yn draddodiadol eu bod yn anodd eu lleoli mewn lleoliadau parhaol (h.y. plant hŷn, grwpiau o frodyr a chworydd a phlant o leiafrifoedd ethnig) er gwaethaf popeth elwa o'r fath leoliadau;
- Wedi dweud hynny, po hynaf y plentyn a'r mwyaf difrifol eu problemau y mwyaf tebygol oedd hi y byddai problemau yn y lleoliad;
- Mae plant mewn gofal maeth yn gwneud cynnydd da yn gyffredinol, hyd yn oed pan oedd hwn yn opsiwn dros dro neu ansicr

(c) Astudiaethau a gymharodd oedolion a oedd wedi bod mewn gofal ag oedolion eraill a oedd wedi profi problemau neu anhawster.

Roedd ymagweddau o'r fath yn tueddu i ddefnyddio setiau data oedd yn bodoli eisoes. Mae anawsterau sylweddol yn y fath ymagweddau - a'r pwysicaf yw nad oedd y problemau y cymharwyd gofal â hwy (fel dod o deulu un rhiant neu fod yn ddosbarth gweithiol) yn ystyried materion fel cam-drin neu esgeulustod y gellid disgwyl y byddent yn cael effaith negyddol ar blant. Ni all yr astudiaethau felly edrych ar fanylion cyfraniad gofal i anawsterau hwyrach. Hefyd, mae'r astudiaethau yn canolbwyntio ar blant mewn gofal yn y 1950au, 60au a 70au, ac mae gwahaniaethau sylweddol yn y system ofal heddiw.

Yn gyffredinol roedd gan oedolion a oedd wedi bod mewn gofal broblemau uwch ar y cyfan na'r rheiny nad oeddent wedi bod mewn gofal, ond nid oedd hon yn berthynas gref iawn. Pan oedd plant mewn gofal yn cael eu cymharu ag eraill a allai fod wedi profi ryw lefel o anfantais, roedd eu canlyniadau yn debyg ar y cyfan.

3 Trafodaeth am yr adolygiad llenyddiaeth ac argymhellion

Mae'r canfyddiadau yn awgrymu golwg wahanol ar y system ofal i'r hyn a nodir yn Care Matters, er bod rhai meysydd lle y ceir cydsyniad. Mae ein canfyddiadau allweddol yn awgrymu'r canlynol:

1. Mae diffyg ymchwil yn cymharu plant sy'n derbyn gwahanol fathau o leoliad, neu blant nad ydynt yn dod i mewn i ofal a'r rheiny sydd yn gwneud hynny. Mae hyn yn gwneud polisi ac arfer seiliedig ar dystiolaeth ynghylch pa leoliadau sydd orau ar gyfer pa blant yn anodd
2. Yn hollbwysig, mae'r system ofal yn tueddu i gael effaith positif ar les plant. Mae hyn i'w weld yn gyson ar draws ystod o wahanol opsiynau lleoliad.
3. Mae rhan fwyaf yr anawsterau y mae plant yn eu profi mewn gofal yn ymddangos yn ganlyniad eu profiadau *cyn* gofal. Mae angen i unrhyw ymgais felly i wella canlyniadau'r system ofal ganolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd cyn i blant fynd i mewn i ofal a cheisio lleihau'r niwed y mae llawer o blant yn ei brofi. Yn y cyswllt hwn, mae'n gamarweiniol i feddwl am ofal cyhoeddus a chefnogaeth deuluol fel pethau ar wahân. Maent yn gydgyssylltiedig ac yn rhyngweithio wrth ddylanwadu'r canlyniadau i blant;
4. Mae dewisiadau parhaol eraill fel mabwysiadu yn esgor ar ganlyniadau positif i blant ac felly mae dystiolaeth dda y gellid eu defnyddio'n fwy helaeth, yn enwedig gyda phlant hŷn (e.e. plant rhwng 5 a 11 oed) lle y bo'n briodol.
5. I blant sy'n parhau mewn gofal yn 16 oed, mae llawer o effaith positif y gofal ei hun yn cael ei ddadwneud gan ddarpariaeth gadael gofal annigonol. Yn y rhan fwyaf o deuluoedd, mae plentyn yn gadael y cartref yn broses sy'n para am rai blynyddoedd ac mae plant fel arfer yn derbyn cefnogaeth barhaus wrth iddynt dyfu'n oedolion. Mae mentrau diweddar Llywodraeth y DU, fel y Ddeddf Plant (Gadael Gofal) a'r cynigion o fewn Care Matters, yn cydnabod hyn. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn wir dweud ei fod yn haws atgynhyrchu agweddau allweddol ar ofal da mewn teuluoedd i blant yn ystod eu plentyndod nac i wneud yr un peth mewn perthynas â gweddill eu bywyd fel oedolion.

Argymhellion

Ar sail y canfyddiadau hyn rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- *Nid yw atal plant rhag mynd i mewn i ofal yn hawdd.* Mae peryglon hefyd ynghlwm wrth atal yr hyn allai fod yn opsiwn positif i lawer o blant. Mae'n rhaid i fentrau i leihau'r angen am ofal felly gael eu datblygu'n ofalus a'u gwerthuso'n drylwyr.

- *Yn hytrach nag ymgais gyffredinol i leihau nifer y plant mewn gofal, dylid cael ymgais i wahaniaethu rhwng plant y byddent yn elwa o fynd i mewn i ofal a'r rheiny y mae gofal yn debygol o fod yn opsiwn gwaeth nag aros gartref.* Ar hyn o bryd, ymddengys yn debygol bod llawer o blant y gwrthodir gofal iddynt yn profi cam-drin ac esgeulustod gartref. Mae llawer o'r plant hyn yn mynd i mewn i ofal yn ddiweddarach gydag anawsterau difrifol - ac mae eu canlyniadau lles yn wael. Byddai rhai o'r plant hyn wedi elwa o fynd i mewn i ofal yn gynt, tra y byddai'r canlyniadau i eraill yn cael eu gwella orau drwy wasanaethau ataliol mwy effeithiol.
- *Wrth geisio penderfynu pan blant ddylai fynd i mewn i ofal mae'r canfyddiadau ymchwil canlynol yn ymddangos yn bwysig:*
 - *Mae gan blant iau y'u lleolir mewn teuluoedd eraill parhaol ganlyniadau cymharol dda.* O ganlyniad, gallai fod angen ystyried a ddylid gostwng y trothwyau ar gyfer plant o'r fath yn mynd i mewn i ofal, ac y dylid ceisio adferiad mewn ffordd amser-gyfyngedig a gofalus yn unig.
 - *Yr hiraf yr oedi wrth symud plentyn i ddewis arall parhaol y lleiaf tebygol yw hi y bydd canlyniad positif.* Dylid lleihau'r oedi wrth wneud penderfyniadau am ddewisiadau eraill parhaol i'r lleiafswm i bob plentyn o dan 11.
- *I blant nad yw dychwelyd adref yn ymarferol, dylid cael mwy o ddefnydd o ddewisiadau eraill parhaol.* Yn benodol gallai mwy o blant rhwng 5 a 9 oed gael eu mabwysiadu.
- *Fodd bynnag, i'r rhan fwyaf o blant ni fydd gofal yn ddewis arall parhaol i fywyd teuluol.* Yn hytrach, dylai fod yn hafan ddiogel sy'n darparu ar gyfer eu hanghenion am ba bynnag gyfnod na allant fyw gyda'u teuluoedd genedigol. Yn hollbwysig, mae hyn yn pwysleisio gofal fel opsiwn positif hyd yn oed pan na all greu teulu arall parhaol. I'r perwyl hwn mae angen cael ffocws ar y canlynol:
 - *Cynyddu sefydlogrwydd y profiad gofal.*
Mae hyn yn cynnwys lleoliadau, profiadau ysgol a chyswllt â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol.
 - *Adnabod cryfderau gofal maeth ac unedau preswyl ar raddfa fach*
Dylid dirprwyo cynifer o bwerau â phosib i ofalwyr. Dylid datblygu a gwerthuso ymagweddau arbenigol ac arloesol i ddarparu gofal. Gallai'r plant mwyaf heriol elwa o gynnydd yn y defnydd o ofal maeth triniaethol a mwy o ddefnydd o ofal preswyl; byddai hyn hefyd yn lleihau'r baich ar y rhan fwyaf o ofalwyr.
 - *Gweledigaeth newydd o waith cymdeithasol fel proffesiwn seiliedig ar berthnasoedd.*
Dylid lleihau biwrocratiaeth i alluogi treulio mwy o amser gyda phobl; dylai'r strwythur gyrfaoel annog y rheiny â sgiliau da i aros mewn cysylltiad â chleientiaid.
 - *Pwyslais ar gefnogaeth barhaus i deuluoedd*
Dylid ystyried "gofal" fel ffurf ar gefnogaeth i deuluoedd. At hynny, dylid cael ffocws parhaus ar helpu teuluoedd i oresgyn eu hanawsterau. Dylai ymagwedd

o'r fath hefyd gynnwys cynnydd yn y defnydd o leoliadau yn y teulu ehangach (gofal gan berthynas a chefnogaeth ar eu cyfer.

- *Ffocws ar "ychwanegu gwerth" yn y tymor byr a'r tymor canolig*
Yn rhy aml mae plant yn aros i ddychwelyd adref neu am ddewisiadau eraill parhaol. Rhaid i'r ffocws fod ar nodi anawsterau a chael mewnbwn arbenigol yn y tymor byr a'r tymor canolig.

DIOLCHIADAU

Mae'r adroddiad hwn wedi elwa llawer o ganlyniad i'r canlynol ei ddarllen a chynnig sylwadau arno : Bryan Isaac (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru), Robert Willis (Uned Ymchwil a Gwybodaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru), Cherilyn Dance ac Isabelle Brodie (Prifysgol Swydd Bedford) ac Alan Rushton (Sefydliad Seiciatreg). Lle y bo'n bosib rydym wedi adolygu'r adroddiad i adlewyrchu sylwadau defnyddiol yr unigolion hyn, fodd bynnag cyfrifoldeb yr awduron yw'r cynnwys bob amser.

Cyflwyniad

Mae cred gyffredin fod y system ofal yn cynhyrchu canlyniadau gwael iawn i blant. Mae rhai o'r ystadegau a restrwyd fel tystiolaeth i gefnogi'r farn hon yn cynnwys y ffaith fod plant o fewn gofal y wladwriaeth, neu 'blant y gofelir amdanynt':

- yn tangyflawni o fewn addysg o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol (Uned Eithrio Cymdeithasol, 2003; Jackson a Sachdev, 2001; Harker, Dobel-Ober, Berridge a Sinclair, 2004; Adran Addysg a Sgiliau (DfES), 2006);
- â chanlyniadau iechyd gwael (Meltzer, et al, 2003; Roberts, 2000; Adran Iechyd (DH), 2002a);
- yn cael eu gorgynrychioli o fewn grwpiau amrywiol sydd wedi'u heithrio pan yn oedolion (Chambers et al, 2002; Richardson a Joughan, 2000; Harker, et al, 2004);
- pedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith a 60 gwaith yn fwy tebygol o gael eu hanfon i'r carchar na'r rhan fwyaf o blant (Gweithgor ar y Cyd y Deyrnas Unedig ar Ofal Maeth, 1999).

Mae'r farn fod gofal yn gadael plant i lawr wedi bod yn ganolog mewn ymatebion polisi canolog i ofal yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Stein (2006) yn dyfynnu adroddiad gan y Ganolfan Astudiaethau Polisi sy'n dadlau ein bod yn "betraying 60,000 children in care", ac mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i honni "a successful system of care would transform this country, empty a third of our prisons, and halve the number of prostitutes and homeless". Mae cred fod gofal yn gadael plant i lawr hefyd yn ganolog i farn y llywodraeth ar y maes hwn. Fel dywedodd Alan Johnson, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn y rhagair i'r papur gwyrdd diweddar *Care Matters*:

"For many of the 60,000 children who are in care at any one time, childhood and adolescence are often characterised by insecurity, ill health and lack of fulfilment. This is terribly sad. And we can hardly be surprised that it results in many children in care underachieving educationally and getting nowhere near fulfilling their potential as adults. Some may say that part of the reason for this is that children who enter care come disproportionately from poor backgrounds and have complex needs, but it is inexcusable and shameful that the care system seems all too often to reinforce this early disadvantage, rather than helping children to successfully overcome it".
(DfES, 2006, tud3)

Mae hyn yn cynnig darlun negyddol iawn. Ond pa mor gryf yw'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn? Beth mae ymchwil yn dweud wrthym am sut mae plant a phobl ifanc mewn gofal yn llwyddo? Mae'r adolygiad hwn yn ystyried y mater hwn yn fanwl, cyn ystyried beth y gall yr ymchwil ddweud wrthym am sut orau i wella canlyniadau i blant y gallai fod angen iddynt fynd i mewn i ofal.

Er mwyn gwneud hyn mae i'r adroddiad tri phrif ran. Mae rhan un yn cyflwyno gwybodaeth gyffredinol ar y system ofal. Mae'n ystyried cwestiynau fel: faint o blant sy'n mynd i mewn i ofal? Beth sy'n digwydd iddynt? Beth yw gwahanol gydrannau y "system" ofal? Mae'r darparu cyd-destun hollbwysig ar gyfer ystyried yr ymchwil fwy cyffredinol a adolygwyd yn rhannau diweddarach yr adroddiad. Un o'r casgliadau allweddol sy'n codi o ystyried y cyd-destun yw nad yw'n ddilys cymharu plant mewn gofal â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae hefyd yn anodd cymharu canlyniadau gofal ar draws gwahanol wledydd

neu o astudiaethau a gynhaliwyd amser hir yn ôl, gan fod natur gofal wedi newid mewn ffordd mor sylweddol.

Mae rhan dau yn canolbwyntio ar ymchwil sy'n edrych ar ganlyniadau i blant sydd wedi mynd i mewn i ofal. Mae iddi gylch gorchwyl eang iawn - gan yr ystyrir bod pob math o ganlyniad lles yn berthnasol. Mae felly yn cynnwys canlyniadau addysgol, ymddygiadol, iechyd-gysylltiedig a mathau eraill o ganlyniadau. Mae hefyd yn ystyried unrhyw fath o ofal cyhoeddus - o ofal maeth tymor byr i fabwysiadu - ac adegau o unrhyw hyd mewn gofal. Felly cynhwysir llenyddiaeth amrywiol iawn. Yn dilyn adolygiad o ganfyddiadau allweddol o astudiaethau hŷn ac mewn democratiaethau diwydiannol eraill, mae'r ffocws sylfaenol ar ymchwil Prydeinig a gyhoeddwyd ers i Ddeddf Plant 1989 ddod i rym ym 1991. Nodwyd bod tair math o astudiaeth yn arbennig o berthnasol:

- (1) Astudiaethau sy'n cymharu lles plant mewn gofal â phlant sydd mewn perygl o ofal;
- (2) Astudiaethau sy'n edrych ar newidiadau mewn lles plant i blant mewn gofal dros amser;
- (3) Astudiaethau sy'n darparu cipolwg o blant mewn gofal gan ganiatáu ar gyfer eu hamgylchiadau penodol.

Yn y meysydd hyn gwneir ymgais i nodi rhan fwyaf yr astudiaethau Prydeinig a gyhoeddwyd rhwng 1991 a 2006 - fodd bynnag mae'n debygol mewn arfer yr hepgorwyd rhai astudiaethau. Mae amrywiaeth o resymau dros hyn. Mae patrymau cyhoeddi ymchwil mewn gwaith cymdeithasol yn wahanol i feysydd eraill, i'r perwyl y caiff astudiaethau pwysig eu cyhoeddi'n aml fel monograffau ymchwil. Mae'r rhain yn anodd eu nodi drwy dechnegau chwilio confensiynol. Fodd bynnag, y rheswm pwysicaf yw y gall gwybodaeth ar ganlyniadau i blant sy'n mynd i mewn i ofal ymddangos mewn astudiaethau nad yw'n ymddangos mai dyma yw eu ffocws. Er enghraifft, mae astudiaeth o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yn cynnwys data pwysig ar blant aeth i mewn i ofal o'u cymharu â'r rheiny na wnaeth hynny (Gibbons et al., 1995). Mae'r adolygiad felly yn anelu at ddarparu adolygiad trylwyr yn hytrach nag adolygiad cynhwysfawr o ymchwil yn y meysydd a nodwyd. Mae mewn rhai ffyrdd yn yr hyn y mae Rushton yn ei alw yn "adolygiad cwmpasog" yn hytrach nag yn adolygiad cynhwysfawr, sef ei fod yn amlinellu cwmpas a natur ymchwil cyfredol ac yn nodi'r meysydd o wendid a blaenoriaethau ar gyfer gwaith pellach (Rushton, 2003). At hynny, mae'n ceisio llunio casgliadau sy'n berthnasol at ddibenion gwneud polisi ac arfer.

I ategu'r meysydd uchod, mae rhai astudiaethau ymchwil ar farn pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Ymddengys bod y rhain yn cynnwys gwybodaeth bwysig sy'n ategu ac yn goleuo'r canfyddiadau ar ganlyniadau o'r mathau o astudiaeth a nodwyd uchod.

Mae rhan tri yn symud i drafodaeth fwy cyffredinol am oblygiadau polisi ac arfer yr adolygiad, ac yn cynnwys ystyriaeth o rai astudiaethau pwysig nad ydynt yn ystyried lles plant yn uniongyrchol (er enghraifft, astudiaethau sy'n edrych ar fethiant lleoliadau fel "canlyniad") yn ogystal ag adolygiadau pwysig diweddar o'r llenyddiaeth. Mae'n ceisio nodi rhai gwersi allweddol o'r ymchwil ar gyfer datblygu polisiau effeithiol ac arfer da mewn perthynas â phlant mewn gofal.

RHAN 1: GWYBODAETH GYFFREDINOL AM Y SYSTEM OFAL

Beth yw “gofal”?

Mae dau lwybr i mewn i ofal cyhoeddus. Mae un llwybr drwy ‘lety’ o dan adran 20 Deddf Plant 1989, sy’n drefniant gwirfoddol a wneir rhwng yr Awdurdod Lleol a rhiant/rhieni plentyn. O dan y trefniant hwn mae’r rhiant yn cadw “cyfrifoldeb rhiant” dros eu plentyn, a gallant ofyn i’r plentyn gael ei anfon adref ar unrhyw adeg. Mae’r ail lwybr drwy weithdrefnau llys o dan Ddeddf Plant 1989, a allai weld y plentyn yn dod yn destun Gorchymyn Amddiffyn Brys, Gorchymyn Gofal Dros Dro neu Orchymyn Gofal Llawn. Ym mhob un o’r opsiynau hyn, mae’r Awdurdod Lleol yn meddu ar Gyfrifoldeb Rhiant dros y plentyn tra bod y gorchymyn mewn grym. Rhennir hyn gyda’r rhiant. Os bydd plentyn yn mynd i mewn i ofal drwy’r llwybr hwn mae’n rhaid i lys gytuno bod plentyn yn ‘dioddef neu’n debygol o ddioddef niwed sylweddol’ ac y byddai er budd iddynt hwy i fynd i mewn i ofal. Mae tua dau draean o blant yn mynd i mewn i ofal drwy’r llwybr gorfodol hwn.

Yn dechnegol mae’r term ‘plant mewn gofal’ yn gymwys yn unig i blant sy’n destun gorchymyn llys, tra bod y term ‘y gofelir amdanynt’ yn gymwys i blant sy’n derbyn llety a’r rheiny o dan orchymyn gofal (Brayne a Carr, 2006). Fodd bynnag, yn yr adolygiad hwn rydym wedi defnyddio’r term “mewn gofal” i ddynodi plant y gofelir amdanynt naill ai o dan Orchymynion Gofal neu’n wirfoddol, gan mai dyma’r term a ddefnyddir yn gyffredin. Dyma’r ffordd y caiff ei ddefnyddio hefyd o fewn papur gwyrdd *Care Matters*. Rydym hefyd weithiau’n cyfeirio at blant mewn gofal fel plant y gofelir amdanynt (neu PGA pan fydd gofod yn brin, mewn siartiau er enghraifft).

Beth yw proffil plant mewn gofal?

Ar 31^{ain} Mawrth 2006, roedd 60,300 o blant o fewn gofal y wladwriaeth yn Lloegr a Chymru (yr oedd 4,784 ohonynt yng Nghymru). Mae nifer y plant y gofelir amdanynt yng Nghymru wedi cynyddu’n sylweddol ers 1998 (o 2991 o blant, cynnydd o 59%).

O’r plant y gofelir amdanynt yng Nghymru a Lloegr yn 2006, roedd 55% yn wrywaidd, a 45% yn fenywaidd. Mae plant yn mynd i mewn i ofal ar yr ystod lawn o oedrannau, ond ar unrhyw un adeg mae rhan fwyaf y plant mewn gofal o oed ysgol uwchradd:

O dan 1	5%
1-4	14%
5-9	19%
10-15	43%
16+	19%

Lleolir plant y gofelir amdanynt mewn nifer o wahanol leoliadau. Mae rhan fwyaf y plant mewn lleoliadau maethu (tua 70%), fodd bynnag mae 9% wedi’u lleoli gartref gyda’u rhieni (o dan orchymyn), mae 11% arall mewn cartrefi plant preswyl, yn cynnwys unedau diogel a llety, mae 6% mewn ysgolion preswyl, llety a lleoliadau preswyl eraill, ac mae 5% wedi’u gosod i’w mabwysiadu (cyn cadarnhad cyfreithiol o’r mabwysiadu). Mae’r DfES (2006) yn nodi o’r 23,000 o blant o dan 16 y gofelir amdanynt am 2.5 o flynyddoedd neu fwy, roedd 65% wedi bod yn bwy yn yr un lleoliad am ddwy flynedd o leiaf. Defnyddir lleoliadau yn wahanol yn dibynnu ar oed ac ar y materion y mae’r plentyn yn dod gyda hwy i mewn i’r system ofal.

Mae llawer iawn o symud o fewn y boblogaeth ofal dros amser, ac mae’r plant hynny sy’n treulio mwy na dwy flynedd mewn gofal yn lleiafrif bach o gyfanswm nifer y plant

sydd mewn gofal. Archwilir peth o'r cymhlethdod hwn yn Siart 1. Mae rhai pwyntiau allweddol i'w hamlygu yn ymwneud a'r siart fel a ganlyn:

- Yn ystod unrhyw flwyddyn, bydd 40% o'r plant ddaw i mewn i ofal yn gwneud hynny am lai na 6 mis – gyda llawer ohonynt mewn gofal am gyfnodau byr iawn;
- Bydd hanner yr holl blant y gofelir amdanynt yn treulio dau neu fwy o gyfnodau gwahanol mewn gofal;
- Dim ond tua 8% o'r plant y gofelir amdanynt ar unrhyw adeg fydd yn cael eu mabwysiadu;
- Mae tua 13% o blant yn gadael gofal ac yn dod yn annibynnol bob blwyddyn;
- Mae 30% o blant yn aros mewn gofal am 4 blynedd neu fwy.

Mae hyn yn amlygu'r ffaith fod y system "ofal" yn cyflawni nifer o swyddogaethau. I lawer o blant mae'n fodd iddynt gysgodi tra bod cynlluniau mwy hir-dymor yn cael eu gwneud. I eraill mae'n brofiad dros dro cyn dychwelyd adref yn barhaol. I rai mae'n dod yn lleoliad lle byddant yn profi rhan fwyaf eu plentyndod.


Mae tair nodwedd rhyng-gysylltiedig o siart 1 yn arbennig o drawiadol. Yn gyntaf, mae'r gyfran gymharol fach o'r holl blant sy'n mynd i mewn i ofal a gaiff eu mabwysiadu yn bwysig. Ystyrir mabwysiadu yn gyffredinol fel y ffurf arferol ar ddewis arall parhaol i'r teulu genedigol - ond yn anaml y cyflawnir hyn ar gyfer plant gan y system ofal. Yn ail, nodwedd fwyaf trawiadol y system ofal yw bod rhan fwyaf y plant yn dychwelyd adref - yn aml yn gymharol gyflym - gyda llawer o'r plant hyn yn symud i mewn ac allan o ofal nifer o weithiau. Yn olaf, dylid nodi'r cyfnodau cymharol fyr o amser a dreulir mewn gofal gan ran fwyaf y plant. O safbwynt ymchwil mae hyn yn amlygu'r ffaith fod "gofal" ar ei ben ei hun yn annhebygol o gynhyrchu'r canlyniadau gwael y mae llawer o blant yn eu profi. O safbwynt polisi mae'n pwysleisio'r ffaith fod angen i ofal gael ei weld mewn cyd-destun sy'n cynnwys gwasanaethau cefnogi i deuluoedd genedigol a dewisiadau eraill parhaol. Mae hefyd yn pwysleisio ar gyfartaledd mai am rhwng blwyddyn a thair blynedd y mae gofal yn gweithio gyda phlant - ac mae angen i'r ffocws ar wneud gwahaniaeth positif i fywydau plant ystyried hyn.

Hyd yma nid oes ffordd gytunedig o wahaniaethu rhwng grwpiau o blant mewn gofal. Gallwn fod yn eithaf sicr nid yw'n wir i ddweud bod gofal yn "gweithio" neu "nad yw'n gweithio". Mae'n fwy tebygol ei fod yn gweithio'n dda i rai grwpiau, yn ddigonol i eraill ac yn arbennig o wael i eraill. Trafodir amrywiaeth helaeth profiadau gofal plant, a'r gwahanol ganlyniadau ar gyfer gwahanol fathau o blant ymhellach yn Rhan 3.

Beth ydym yn ei wybod am anawsterau plant a phobl ifanc mewn gofal?

Fel y nodwyd ar ddechrau'r adroddiad, derbynnir yn helaeth o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol mae plant mewn gofal yn gwneud yn wael mewn ystod eang o fesurau. Mae canlyniadau ar gyfer y plant hyn felly yn ffocws priodol ar gyfer pryder cyhoeddus a sylw o ran polisi. Wedi dweud hynny, nid yw'r canfyddiadau hyn yn dangos mai'r system ofal ei hun sy'n achosi'r canlyniadau hyn. Fel y nodwyd uchod, y duedd yw mai'r plant sy'n mynd i mewn i ofal yw'r mwyaf difreintiedig yn unigol ac yn gymdeithasol yn ein cymdeithas. Efallai eu bod wedi dioddef niwed o ganlyniad i gam-drin ac mae rhai ohonynt yn debygol o fod â risg genetig uwch o anawsterau penodol, fel salwch meddwl neu anawsterau dysgu. Mae felly yn bosib fod llawr o'r anawsterau hyn yn bodoli cyn iddynt fynd i mewn i ofal. Beth ydym yn ei wybod am sut yr oedd plant mewn gofal yn perfformio ar yr adeg yr aethant i mewn i ofal?

Siart 1: Plant y Gofelir Amdanynt: I Ble Maen Nhw'n Mynd? (Cymru a Lloegr)



Yn seiliedig ar: DfES (2006), Schofield et al (2007)

Proffil plant sy'n mynd i mewn i ofal

Mae plant sy'n mynd i mewn i ofal eisoes dan anfantais o ganlyniad i statws cymdeithasol-economaidd is o'u cymharu â chyfoedion o'r un oed yn y boblogaeth gyffredinol, oherwydd bod mwyafrif y rheiny a ystyrir ar gyfer gofal yn dod o'r cefndiroedd tlotaf a mwyaf difreintiedig (Packman et al, 1986). Dangosodd un astudiaeth allweddol (Bebbington & Miles, 1989) eu bod hefyd yn debygol o ddod o deuluoedd un rhiant; amlinellodd yr astudiaeth hon hefyd nifer o ffactorau risg, fel bod o ethnigrwydd cymysg neu'n byw mewn llety wedi'i rentu sy'n orlawn, y gallent, o'u cyfuno, gynyddu risg plentyn o fynd i mewn i ofal o 1 mewn 7000 i 1 mewn 10. Mae'r ffactorau hyn yn annibynnol gysylltiedig â pherfformiad addysgol gwaeth, a gallent fod yn ffactor mewn canlyniadau gwael eraill. Mae felly'n bosib fod y ffactorau cymdeithasol hyn yn cyfrannu cymaint neu fwy na'r profiad o ofal i'r canlyniadau ar gyfer plant mewn gofal.

Ymddengys hefyd ei fod yn fwy tebygol y bydd gan blant broblemau addysgol, problemau iechyd meddyliol a chorfforol, perfformiad addysgol gwael ac ystod o anawsterau ar yr adeg y maent yn mynd i mewn i ofal na'r boblogaeth yn gyffredinol (Hill a Watkins, 2003; Meltzer et al, 2003). Yn wir, i rai plant mae'r problemau hyn yn cyfrannu'n sylweddol i pam y maent mewn gofal. At hynny, mae gan ran fwyaf y plant mewn gofal hanes o esgeulustod neu gam-drin gan rieni, a gallai hyn gyfrannu at y canlyniadau gwael o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Yn olaf, fel grŵp mae plant mewn gofal mewn risg uwch o ystod o anawsterau a etifeddwyd, yn cynnwys salwch meddwl, problemau cam-drin sylweddau ac anawsterau dysgu neu anhwylderau ymddygiadol penodol.

Mae felly'n glir fod gan blant mewn gofal broblemau difrifol cyn mynd i mewn i ofal, ac felly nid yw cymariaethau gyda'r boblogaeth gyffredinol yn ein helpu i ddeall effaith benodol y system ofal. Yn hollbwysig, os ydym am ystyried sut i wella canlyniadau i blant mewn gofal, mae ymchwil sy'n ein helpu i wahanu effaith y system ofal rhag yr unigolyn a ffactorau cymdeithasol sy'n deillio o'r cyfnod cyn mynd i mewn i ofal yn ymddangos yn arbennig o bwysig.

Heriau wrth ddeall natur canlyniadau plant ar ôl profi gofal

Mae tair her allweddol yn codi mewn unrhyw ymgais i wahanu effaith y system ofal ar blant. Y gyntaf yw bod y system ofal Brydeinig wedi newid dros amser. Mae nifer o astudiaethau yn adrodd ar ganlyniadau i blant aeth i mewn i ofal yn y 1950au, 60au a 70au (trafodir isod). Mae'r rhain yn arbennig o bwysig er mwyn ystyried canlyniadau tymor hwy gofal. Eto mae natur gofal wedi newid yn sylweddol ers y cyfnod y'i profwyd gan yr unigolion hyn. Yn y 1960au gosodwyd llawer o blant i'w mabwysiadu oherwydd materion anghyfreithlondeb, gydag ychydig yn unig yn cael eu tynnu o'u cartrefi herwydd pryderon am gam-drin; roedd mwy o blant yn byw mewn cartrefi preswyl na gofal maeth; aeth y rhan fwyaf o blant i mewn i ofal yn wirfoddol yn eu harddegau; roedd llawer llai o sylw gan y llywodraeth ac ymchwil ar ganlyniadau i blant y gofelir amdanynt. Mae angen bod yn ofalus iawn felly wrth lunio casgliadau am ofal o astudiaethau hanesyddol. Yn yr un modd, tra bod llenyddiaeth ryngwladol sylweddol yn bodoli, mae'r systemau gofal cymdeithasol yn wahanol mewn ffyrdd mor bwysig ei fod yn anodd llunio casgliadau o astudiaethau tramor am effaith y system ofal Brydeinig ar blant. Mae'r astudiaethau hyn yn cynnig gwybodaeth ddiddorol, ond mae'n rhaid ystyried yn ofalus ei berthnasedd i gyd-destun Prydeinig.

Yr ail her yw, fel y trafodwyd uchod, nad yw “gofal” yn ymyrraeth homogenaidd: mae’n amrywio o fabi yn mynd i mewn i ofal maeth am ychydig ddiwrnodau ac yn dychwelyd adref, i blant sy’n treulio peth amser mewn gofal cyn lleoliad arall parhaol, i blant sy’n treulio blynyddoedd mewn gofal, yn aml yn mynd drwy amrywiaeth o leoliadau ac yn “gadael gofal” yn swyddogol yn 18. Er mwyn cydnabod yr amrywiaeth hon, mae astudiaethau yn tueddu i ganolbwyntio ar grwpiau penodol. Mae cyffredinoli felly am effaith “gofal” yn gyffredinol yn amhosib mewn theori ac mewn arfer.

Yn drydydd, ychydig yn gymharol o astudiaethau sy’n cael eu cynnal mewn ffordd sy’n taflu goleuni ar effaith y system ofal mewn gwirionedd ar les plant. Er enghraifft, ychydig sy’n cywain gwybodaeth am blant cyn iddynt fynd i mewn i ofal neu ar adeg mynd i mewn i ofal, ychydig yn gymharol sy’n dilyn cynnydd plant dros amser ac mae’n beth prin iawn i blant sy’n mynd i mewn i ofal gael eu cymharu â phlant ddaeth yn agos at fynd i mewn i ofal.

RHAN 2: ADOLYGIAD O LENYDDIAETH AR EFFAITH Y SYSTEM OFAL AR LES PLANT

Cyflwyniad

Nodir y fethodoleg lawn ar gyfer yr adolygiad o lenyddiaeth yn Atodiad A. Yn gryno, drwy chwiliadau electronig a blaen bys ceisiwyd nodi a chrynhoi astudiaethau sy'n darparu gwybodaeth am les plant oedd wedi profi gofal cyhoeddus. Deellir yn fras bod lles plant yn cwmpasu unrhyw elfen o les h.y. yn cynnwys addysg, ymddygiad a chanlyniadau yn hwyrach mewn bywyd (fel diweithdra). Yn ystod y broses o chwilio'r llenyddiaeth nodwyd llawer o astudiaethau hŷn neu dramor oedd yn ymddangos yn bwysig. Rydym felly yn cyflwyno'r adolygiad llenyddiaeth mewn pedair adran. Mae'r gyntaf yn cynnwys trafodaeth eang o astudiaethau hŷn allweddol a chanfyddiadau pwysig o'r llenyddiaeth nad yw'n llenyddiaeth Brydeinig. Mae hyn yn darparu cyd-destun ar gyfer edrych mewn ffordd fwy cynhwysfawr ar ymchwil Brydeinig ar ganlyniadau i blant aeth i mewn i ofal rhwng 1991 a 2006.

Mae'r tair adran sy'n dilyn yr adolygiad cychwynnol hwn yn ystyried astudiaethau sy'n darparu gwybodaeth ar effaith gofal ar blant. I'r perwyl hwn, nodwyd tri math o astudiaeth fyddai'n debygol o fod yn ddefnyddiol, sef:

- (a) Astudiaethau oedd yn cymharu canlyniadau i blant aeth i mewn i ofal â'r rheiny i blant oedd yn profi anawsterau tebyg na aeth i mewn i ofal;*
- (b) Astudiaethau oedd yn edrych ar gynnydd plant mewn gofal dros amser;*
- (c) Astudiaethau oedd yn cymharu oedolion a oedd wedi bod mewn gofal ag oedolion eraill a oedd wedi profi problemau neu anhawster.*

I'r mathau hyn o astudiaethau ceisiwyd nodi cynifer â phosib o'r astudiaethau allweddol, er fel y nodwyd yn y rhagarweiniad nad oedd yn bosib bod yn siŵr bod ein hymagwedd wedi esgor ar restr gynhwysfawr o astudiaethau o'r fath. Credwn ei fod yn debygol bod yr adolygiad yn drylwyr heb i ni lwyddo i gwmpasu pob astudiaeth.

Yn ogystal, yn llawer o'r astudiaethau - neu eraill a nodwyd gennym - mynegodd blant farn ar eu profiad o ofal. Mae'r wybodaeth hon ychydig yn wahanol i ddata canlyniadau, ond ymddengys fodd bynnag ei fod yn ffynhonnell wybodaeth bwysig ar effaith y system ofal. Rydym felly wedi crynhoi'n fyr rai o'r canfyddiadau hyn mewn isadran arall.

Yn olaf, rydym yn ymwybodol mai cymharol ychydig neu ddim astudiaethau sydd ar gael mewn rhai meysydd penodol (fel gofal gan berthynas neu ofal preswyl) sy'n cwrdd â'n meini prawf cynhwysiad. Rydym felly wedi ystyried rhai canfyddiadau o astudiaethau eraill yn y meysydd hyn yn ein trafodaeth ar y llenyddiaeth.

Newidiadau mewn lles dros amser: Astudiaethau Hŷn neu o Wledydd Eraill

Astudiaethau o brosesau gwaith cymdeithasol yn y 1960au, 1970au a'r 1980au

Tan y 1970au ymchwil cyfyngedig iawn oedd ar gael ar yr hyn oedd yn digwydd i blant mewn gofal. Testun allweddol a dynnodd sylw at y maes hwn oedd astudiaeth glasurrol Rowe a Lambert, *Children Who Wait*, (1973). Disgrifiodd Rowe a Lambert blant yn aros am gyfnodau estynedig mewn gofal o ganlyniad i ddiffyg cynllunio effeithiol. Roedd

llawer o blant yn treulio cyfnodau hir mewn gofal cyhoeddus heb gynllun clir ar gyfer eu dyfodol, a dadleuwyd y gallai rhai ohonynt fod wedi ailymuno â'u teuluoedd tra y byddai eraill wedi elwa ar ddewis arall hir dymor neu barhaol. Cafodd yr astudiaeth ddylanwad sylweddol ar ddatblygu polisi ac arfer ar gyfer plant y gofelir amdanynt. Yn dilyn ei gyhoeddi, comisiynodd y llywodraeth raglen ymchwil yn edrych ar ofal plant y gofelir amdanynt.

Daethpwyd a chanfyddiadau'r astudiaethau hyn ynghyd yn yr adroddiad cryno 'Social Work Decisions in Child Care' (DHSS, 1985). Adroddodd hwn ar ganfyddiadau 9 adroddiad ymchwil a gomisiynwyd gan y llywodraeth. Daeth yr adroddiadau i'r casgliad fod gan weithwyr cymdeithasol rheng flaen gyfrifoldeb sylweddol yn aml mewn perthynas â phenderfyniadau fel a ddylai plant fynd i mewn i ofal ond fel arfer nad oedd ganddynt yr awdurdod i gael mynediad i adnoddau allweddol, ac yn gyffredinol yr oedd y systemau oedd yn eu lle yn cyfyngu gweithwyr cymdeithasol yn fwy na'u cefnogi. Argraff a gafwyd o nifer o'r astudiaethau oedd bod strwythurau biwrocraataidd yn ei wneud yn anodd darparu rôl riant dda i'r plentyn unigol mewn gofal. Nodwyd hefyd bod diffyg ymchwil ac arweiniad seiliedig ar dystiolaeth i helpu ymarferwyr benderfynu pryd fyddai derbyn i ofal yn briodol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod ymdeimlad "trawiadol" o oddefedd gweithwyr cymdeithasol a'u teimladau o fethu allu gweithredu a'u bod yn ddibynnol ar ddigwyddiadau a gweithredoedd pobl eraill ac asiantaethau eraill.

Cyfrannodd y canfyddiadau hyn at ddatblygu Deddf Plant 1989, a geisiodd ddarparu sail gyfreithiol fwy cydlynol ar gyfer y system ofal. Fodd bynnag, mae'n amlwg er bod yr astudiaethau oedd yn bwydo'r adroddiad yn gryf o ran disgrifio, ychydig iawn o dystiolaeth gadarn a ddarparwyd ganddynt am les plant neu sut oedd yn newid dros amser. Fodd bynnag, roeddent yn cyfrannu at ymdeimlad cyffredinol bod y system ofal yn gadael plant i lawr.

Yn rhannol mewn ymateb i'r ymdeimlad hwn, ac yn rhannol oherwydd ystyriaethau gwleidyddol neu ddamcaniaethol eraill, roedd dau ddatblygiad pwysig mewn polisiâu ar gyfer plant y gofelir amdanynt. Un oedd mwy o bwyslais ar *atal* (yn cynnwys dychwelyd adref o ofal); roedd yr ail yn dadlau pan nad oedd plant yn gallu byw gartref dylid dod o hyd i ddewis arall parhaol iddynt cyn gynted â phosib (a adwaenir fel y cysyniad o *sefydlogrwydd*).

O'r 1970au hyd heddiw cafwyd ffocws ar *atal* gofal. Ers Deddf Plant 1948 sefydlwyd yr egwyddor yn gyfreithiol mai'r lle gorau i ofalu am blant oedd gyda'u teuluoedd, ond arweiniodd yr ymdeimlad cynyddol bod gofal yn gadael plant i lawr at fwy o bwyslais ar *atal* plant rhag mynd i mewn i ofal a'u dychwelyd adref, yn ddefnyddol yn gymharol gyflym. Bu hyn yn symudiad arbennig o amlwg mewn perthynas â threfniadau gofal gwirfoddol i blant hŷn. Lle roedd plant o'r fath yn y gorffennol yn cynrychioli dau draean o'r plant mewn gofal, erbyn hyn dim ond traean o'r system ofal y maent yn ei chynrychioli. Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol yn awyddus i ddarparu llety i blant – gydag ymdeimlad cyffredinol bod y system ofal yn gadael plant i lawr yn un agwedd ar yr amharodrwydd hwn. (Mae cost gofal yn debygol o fod yn agwedd arall).

Cipiwyd yr ail ymateb yn y cysyniad o "sefydlogrwydd". Dadl y mudiad hwn - yn seiliedig i ddechrau ar fersiynau o theori ymlyniad a dealltwriaethau seico-deinamig o ddatblygiad plant, a'i hybu gan astudiaethau oedd yn feirniadol o natur gofal cyhoeddus i blant - oedd bod angen ar blant drefniadau teuluol parhaol. Y ffordd ddefnyddol o gefnogi ymlyniadau parhaol oedd i blant aros gyda'u teuluoedd genedigol. Fodd bynnag, lle nad

oedd hyn yn bosib, dylid symud plant mor gyflym â phosib i ddewisiadau eraill. Y ddelfryd oedd teulu mabwysiadu parhaol, ond lle nad oedd hyn yn bosib roedd trefniant maethu hir dymor yn well na segura mewn gofal. Roedd ymagwedd felly yn ystyried bod gofal cyhoeddus yn niweidiol i blant ac felly roedd yn ceisio lleiafu'r defnydd o ofal.

Mae'r cysyniadau cysylltiedig hyn o atal a sefydlogrwydd yn aros wrth wraidd polisiâu cyhoeddus mewn perthynas â phlant y gofelir amdanynt. Er enghraifft, drwy'r ailffocysu a'r mentrau Quality Protects dros y 10 mlynedd diwethaf, ynghyd â chyllid ar gyfer prosiectau fel Cychwyn Cadarn, mae'r llywodraeth wedi pwysleisio symudiad i ffwrdd oddi wrth amddiffyn plant i gefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant. Mae'r ffocws hwn ar atal yn parhau yng nghynigion Care Matters, sy'n edrych yn agosach at atal mewn perthynas â phlant mewn risg uchel o ddod i mewn i ofal (DfES, 2006).

Ar yr un pryd, bu'r llywodraeth yn pwysu am fwy o ddatblygu dewisiadau eraill parhaol yn hytrach na gofal awdurdod lleol, fel y ffocws ar gynyddu nifer y plant sy'n cael eu mabwysiadu, fel y nodwyd yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (ac yn esgor ar gynnydd o 38% mewn achosion mabwysiadu rhwng 2000 a 2005). Mae'r pwyslais ar ddewisiadau eraill parhaol i'w weld hefyd o fewn cynigion Care Matters, er enghraifft yn yr awgrym bod awdurdodau lleol yn darparu cynllun ar gyfer sefydlogrwydd ar ddechrau gweithdrefnau gofal.

Mae'r syniad o sefydlogrwydd ac atal ill dau yn seiliedig yn rhannol ar y gred bod gofal yn gadael plant i lawr - ac yn benodol bod cyfnodau hir mewn gofal cyhoeddus heb gynllun parhaol yn gysylltiedig â chanlyniadau gwael i blant. Ond pa dystiolaeth sydd i gefnogi hyn? Beth ydym yn ei wybod am y canlyniadau i blant â phrofiad o ofal?

Astudiaethau datblygiad plant o'r 1960au, 1970au a'r 1980au

Mae astudiaethau o ganlyniadau ar gyfer plant a fabwysiadwyd wedi bod yn sylfaen ymchwiliadau gwyddonol gymdeithasol ers degawdau. Nid yw hyn yn bennaf o ganlyniad i ddiddordeb mewn materion polisiâu cyhoeddus; mae'n ymwneud mwy â'r ffaith fod mabwysiadu yn cynnig cyfle i archwilio'r rhyngberthynas gymhleth rhwng natur a magwraeth (gan fod plentyn yn cael ei fagu mewn teulu nad yw'n enetigol gysylltiedig ag ef). Fodd bynnag, mae'r astudiaethau yn darparu llenyddiaeth faith ar y canlyniadau ar gyfer babanod a fabwysiadwyd i mewn i deuluoedd nad oeddent yn perthyn iddynt. Yn gyffredinol, does dim llawer o amheuaeth fod plant o'r fath yn tueddu i wneud yn dda iawn ar ystod eang o fesurau canlyniadau. Mae hyn wedi arwain at gysyniad eang a chywir bod mabwysiadu yn gweithio (Rushton, 2003). Rhybudd pwysig - y dychwelir ato yn ddiweddarach - yw bod y corff sylweddol hwn o waith yn ymwneud â mabwysiadu babanod. Rydym yn gwybod llai am blant hyn - er bod hyn wedi bod yn ganolbwynt llawer o astudiaethau dros y 15 mlynedd diwethaf, fel y trafodir yn Rhan 2.

Nid yw ymchwilyr mewn datblygiad plant wedi canolbwyntio ar fabwysiadu yn unig. Mae effaith cael eu magu mewn sefydliadau - neu dreulio cyfnodau o amser mewn gofal sefydliadol - hefyd wedi bod yn destun astudiaeth. Eto astudiwyd hwn nid yn unig (neu yn efallai yn sylfaenol hyd yn oed) i wella arfer a pholisi, ond i ddeall effaith amgylcheddau meithrin gwael yn ystod plentyndod cynnar. Yn benodol, cysyniad allweddol o fewn datblygiad plant yw bod ymlyniad yn gynnar mewn bywyd i ofalwr o bwys mawr a pharhaus mewn perthynas â datblygiad plant. At hynny, mae gofal mewn sefydliadau yn debygol o fod yn niweidiol. Mae rhai astudiaethau hollbwysig wedi ystyried y maes hwn.

Cynhaliwyd set glasurol o astudiaethau gan Tizard a'i gydweithwyr o'r 1960au hyd at ddechrau'r 1980au. Roedd Tizard et al â diddordeb penodol yn effaith gofal sefydliadol cynnar ar blant, a'r gwersi y gellid eu dysgu mewn perthynas â datblygiad plant a darparu gofal priodol i blant. Edrychodd Tizard a Joseph (1970) ar 30 o blant aeth i mewn i ofal sefydliadol cyn eu bod yn 4 mis oed a grŵp cymhariaeth o 30 o blant (yn cyfateb o ran rhyw ac oed ac o gefndir dosbarth gweithiol) yn 24 mis. Ychydig o wahaniaethau yn unig a gafwyd rhwng y ddau grŵp ar y cam hwn. Dilynwyd y sampl o'r astudiaeth yn 1970 i fyny gan Hodges a Tizard (1989 a a b) i laslencyndod. Cafwyd nad oedd byw mewn sefydliad yn effeithio ar IQ, ond bod lleoliad dilynol yn cael effaith - gyda phlant a fabwysiadwyd yn gwneud yn arbennig o dda. Yn yr un modd, roedd gan blant a fabwysiadwyd berthnasod gwell gydag oedolion na'r rheiny a dychwelwyd at eu teuluoedd genedigol. Fodd bynnag, o'u cymharu â'r grŵp cymharu cyfatebol o blant na aeth i mewn i ofal roedd gan y rhai a ddychwelwyd adref a'r rhai a fabwysiadwyd IQ ychydig yn is a pherthnasod gwaeth. Edrychodd Tizard a Rees (1974) ar 65 o blant rhwng 4 a 6 oed oedd wedi treulio 2 i 4 blynedd gyntaf eu bywyd mewn gofal sefydliadol. Yn bedair oed, cafodd 24 eu mabwysiadu, dychwelwyd 15 adref ac roedd 26 yn dal i fod mewn sefydliadau. Roedd gan blant a fabwysiadwyd IQ sylweddol uwch, roeddent yn fwy cyfeillgar ac yn llai aflonydd. Dilynodd Tizard a Hodges (1978) 51 o'r plant yma i fyny yn 8 oed. Roedd plant a fabwysiadwyd yn gwneud yn well yn addysgol na'r rhai a ddychwelwyd adref.

Cynhaliwyd ail set o astudiaethau pwysig gan Rutter, Quinton a'u cydweithwyr (Quinton a Rutter, 1988; Quinton et al., 1984; Rutter a Quinton 1984, 1988). Yn yr astudiaethau hyn dilynwyd 93 o ferched oedd wedi mynd i mewn i un o ddau gartref plant yn y 1960au i fyny ar ddiwedd y 1970au (pan rhwng 21 a 27 oed). Yr hyn sy'n ymddangos yw llun cymhleth o barhad a diffyg parhad yn y cylch amddifadedd rhyng-genhedlaeth. Ar y cyfan, cafwyd er bod gofal sefydliadol cynnar (a'r rhesymau dros ofal o'r fath) yn rhagueddu unigolyn i weithredu cymdeithasol a rhianta gwael, mae llawer o unigolion nad ydynt yn mynd ymlaen i wynebu anawsterau o'r fath. Roedd dau ffactor yn ymddangos yn benodol bwysig wrth gyflawni canlyniadau mor bositif yn wyneb anhawster. Y cyntaf oedd elfen o gynllunio a rheolaeth a weithredwyd gan y plentyn neu'r person ifanc dros faterion fel gyrfa, dewis partner a'r penderfyniad i gael plant. Roedd hwn yn ei dro yn gysylltiedig â phrofiadau llwyddiant - naill ai yn academaidd neu fel arall - yn yr ysgol. Yr ail oedd cefnogaeth gan ŵr gofalgar a ("heb fod yn wyrdröedig").

Cynhaliwyd set arall o astudiaethau gyda chanlyniadau tebyg gan Weiner a'i gydweithwyr. Cynhaliodd Weiner ddilyniant hir-dymor o 268 o oedolion y gofalwyd amdanynt mewn sefydliadau cyn-ysgol (h.y. gofal preswyl) yn Israel yn 1973 (Weiner a Weiner, 1990; Weiner a Kupermintz, 2001). Mae i'r astudiaethau rhai cyfyngiadau (sef mai dadansoddiad ystadegol deumamryweb yn unig y maent yn ei ddefnyddio a'r cynllun oedd gweithredu/ymchwil lle defnyddiwyd canfyddiadau i ddylanwadu ar gynllunio lleoliadau) ac wrth gwrs roedd y cyd-destun yn Israel yn y 1970au yn wahanol iawn. Fodd bynnag, mae rhai canfyddiadau pwysig sy'n berthnasol i'r drafodaeth bresennol. Yn gyntaf, roedd y plant wedi mynd i mewn i ofal mewn amgylchiadau difreintiedig dros ben sy'n debyg iawn i rai'r plant sy'n mynd i mewn i ofal yn y DU. Roedd llawer ohonynt wedi cael eu cam-drin, eu hesgeuluso a/neu eu gwrthod, roedd gan y rhan fwyaf ohonynt rieni â phroblemau seiciatryddol, ac roedd y problemau mewn perthynas â gweithrediad rhieni a'r teulu yn cael eu gwaethygu gan amddifadedd cymdeithasol cysylltiedig. Roedd y llwybrau drwy ofal - yn cynnwys aros mewn sefydliadau, cael eu mabwysiadu, maethu a dychwelyd adref - hefyd yn ymddangos yn gymharol debyg i

gyd-destun y DU ar y pryd. Ar adeg y dilyniant cyntaf, pan oedd y plant yn eu harddegau, ymddangosodd ddarlun a oedd yn amlwg yn un positif. Roedd y grŵp ar y cyfan yn gweithredu yn gymharol dda, er ei fod yn glir bod gan lawer o'r plant anawsterau dysgu difrifol a hir-dymor. Roedd plant a fabwysiadwyd ac (yn annisgwyl) plant oedd wedi aros mewn gofal sefydliadol gyda chyswllt parhaus â'u teuluoedd yn perfformio'r arbennig o dda.

Edrychodd y dilyniant olaf ar y plant fel oedolion ifanc yn eu hugeiniau. Eto, roedd y darlun yn bositif ar y cyfan. Roedd rhan fwyaf y cyfranogwyr yn ymddangos yn gymharol gytbwys ac yn iach, ac nid oedd un o'r 115 o blant yr oedolion ifanc wedi mynd i mewn i ofal. Roedd yn drawiadol hefyd er gwaethaf y lefel uchel iawn o anhawster seiciatryddol yn eu rhieni, ychydig yn unig o'r plant oedd wedi datblygu problemau o'r fath. Fodd bynnag, roedd y grŵp yn parhau i brofi lefel uchel o anabledd dysgu ac ar y pwynt dilynol hwn ymddengys bod eu hymagweddau ychydig yn llai positif nag yr oeddent pan oeddent yn eu harddegau.

Yn debyg i astudiaethau Rutter et al, cafodd Weiner a'u gydweithwyr fod plant yn ymwneud yn weithgar â chreu bywydau llwyddiannus iddyn nhw'n hunain, yn hytrach na bod yn ddiodefwr goddefol anfantais. At hynny, roedd plant â hunanddelweddau positif a theimlad o reolaeth dros eu bywydau pan yn eu harddegau yn llawer mwy tebygol o gael canlyniadau positif yn eu hugeiniau. Mae hyn ynddo'i hun yn fwy tebygol pan fydd plant wedi cael profiadau positif, naill ai yn y cartref neu yn yr ysgol.

O'u hystyried gyda'i gilydd mae'r astudiaethau cynnar hyn yn awgrymu bod plant yn aml yn gwneud defnydd o'r adnoddau sydd ar gael iddynt er mwyn goresgyn anawsterau cychwynol, ac o ganlyniad mae'r canlyniadau iddynt hwy yn well na'r hyn yr oedd damcaniaethau datblygiad plant o'r 1960au a chynt wedi awgrymu oedd yn debygol. Mae'r canfyddiadau hyn wedi cyfrannu at lenyddiaeth ehangach sy'n archwilio sut mae plant yn aml yn llwyddo i oresgyn anawsterau tybiedig a mynd ymlaen i ddilyn bywydau hapus a chynhyrchiol. Fodd bynnag, maent hefyd yn arwyddocaol iawn wrth feddwl am y system gofal cyhoeddus. Yn gyntaf, maent yn awgrymu nad oedd y canlyniadau i blant mor negyddol ag efallai y gellid fod wedi ei ddisgwyl. Yn wir, er gwaethaf ymddangos yn annhebygol, llwyddodd plant i gael magwraeth, cefnogaeth a pherthnasoedd cariadus o fewn neu ar ôl gofal sefydliadol. Yn ail, maent yn nodi ffyrdd y gall plant a phobl ifanc gael eu helpu i oresgyn profiadau cynnar negyddol. Mae ystyried bod y person ifanc yn lluniwr gweithgar ei ddyfodol ei hun a rhoi iddynt opsiynau er mwyn cyflawni hyn yn agweddau hollbwysig ar hyn.

Mae'r astudiaethau hyn yn darparu cyd-destun ar gyfer ein hadolygiad o ymchwil Prydeinig mwy diweddar, ond cyn ystyried hwn, mae'n werth adolygu astudiaethau tramor yn gryno. Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canfyddiadau ar ganlyniadau gofal cyhoeddus i blant mewn gwahanol wledydd. Fodd bynnag, mae rhai o'r canfyddiadau yn llenwi bylchau yn y llenyddiaeth Brydeinig ac felly gallent fod yn ddefnyddiol wrth feddwl am flaenoriaeth polisi ac anghenion ymchwil.

Astudiaethau tramor

Mae llenyddiaeth dramor helaeth ar ganlyniadau i blant mewn gofal. Yn benodol mae nifer fawr o astudiaethau Americanaidd a llenyddiaeth Swedaidd arwyddocaol. Yn yr adran hon rydym yn canolbwyntio ar astudiaethau sy'n darparu tystiolaeth gref am effaith gofal ar les plant - ac yn benodol astudiaethau sy'n cymharu plant mewn gofal â phlant mewn sefyllfaoedd sy'n debyg o ran amddifadedd neu sy'n edrych ar blant o'r pwynt y

maent yn mynd i mewn i ofal - gan mai cyfyngedig yw'r llenyddiaeth Brydeinig yn y meysydd hyn.

Yn gyffredinol, mae astudiaethau mewn gwledydd eraill wedi tueddu i ganfod bod gan ofal effaith bositif ar les plant. Yn debyg i'r llenyddiaeth Brydeinig, cafwyd bod y canlyniadau ar gyfer plant a fabwysiadwyd yn dda ar y cyfan. Mewn astudiaeth Swedaidd dilynodd Bohman a Sigvardsson (1980) 624 o blant y fyny a gofrestrwyd ar gyfer mabwysiadu fel babanod a chawsant 15 mlynedd yn ddiweddarach bod y plant a fabwysiadwyd yn gymaradwy â chyfoedion, ond nad oedd plant a oedd wedi dychwelyd adref neu a oedd wedi aros mewn gofal maeth wedi llwyddo cystal. Edrychodd Fergusson a Horwood (1998) ar astudiaeth carfan geni fawr yn Seland Newydd. Cymharwyd cynnydd 42 o blant a fabwysiadwyd â grŵp o 98 a gyfatebwyd ar gyfer strwythur teuluol (h.y. o deuluoedd rhiant sengl) a chefnidir cymdeithasol economaidd. Yn gyffredinol, roedd plant a fabwysiadwyd yn gwneud yn well na'r grŵp cymhariaeth, ond nad cystal ag efallai y disgwylir ar gyfer plant biolegol yn y teuluoedd y'u gosodwyd ynddynt, ar ystod o fesurau o iechyd a datblygiad cymdeithasol.

Fodd bynnag, nid yw canlyniadau cymharol bositif wedi'u cyfyngu i blant a fabwysiadwyd yn unig o bell ffordd. Ystyriodd Dumaret a Coppel-Batsch (1998) 59 o blant a dreuliodd 5 mlynedd neu fwy gyda theulu maeth mewn asiantaeth Ffrengig. Cafodd y dilyniant ar y plant pan oeddent yn eu 20au fod gan y rhan fwyaf ohonynt swyddi, adroddwyd iechyd da ac roedd gan 56% integreiddiad cymdeithasol "da". Dylanwadwyd yn negyddol ar integreiddiad cymdeithasol gan broblemau cronus rhieni a phlant ar adeg gofal maeth. Mae hyn yn ddiddorol oherwydd ei fod yn amlygu pwysigrwydd sefyllfaedd a phrofiadau cyn-ofal wrth lunio canlyniadau ôl-ofal.

Defnyddiodd Vinnerljung a Ribe (2001) gronfeydd data cenedlaethol yn Sweden i ystyried y risg o farwolaeth gynnar mewn plant a oedd wedi bod mewn gofal maeth o'u cymharu â phlant o gefndiroedd anodd a'r boblogaeth yn gyffredinol. Cafwyd bod y gyfradd o farwolaethau yn debyg i blant gofal maeth ag yr oedd i'r rheiny o gefndir "anodd", gyda'r ddau ychydig yn uwch na'r boblogaeth yn gyffredinol. Roedd y prif risg uwch yn gysylltiedig â hunanladdiad. Yn yr un modd, edrychodd Larsson et al (1986) ar ganlyniadau iechyd 5 a 10 mlynedd ar ôl gofal sefydliadol. Cafwyd bod gan blant a fabwysiadwyd lai o dderbyniadau dilynol ar gyfer trawma, tra bod gan y rheiny a ddychwelwyd adref neu a oedd mewn gofal maeth gyfraddau uwch o dderbyniadau o'r fath a chyfraddau is o ddatblygiad seicoechddygol normal. Mae hwn yn ganfyddiad anodd i'w ddehongli. Mae'n awgrymu ar y lleiaf nad oedd gofal maeth yn waeth (ar y mesur canlyniad hwn) nag aros gartref; ar y llaw arall nad oedd ychwaith yn amlwg well.

Mewn astudiaeth bwysig ddiweddar, astudiodd Barber a Delfrabbro (2005) 235 o blant rhwng 4 a 9 oed aeth i mewn i ofal maeth yn Ne Awstralia rhwng 1999 a 2000. Profwyd plant ar amrywiaeth o fesurau lles wrth eu derbyn, a 4, 8, 12 a 24 mis ar ôl mynd i mewn i ofal. Gwellodd sgoriau ymddygiad yn sylweddol o dderbyn i 4 mis, gyda gwelliannau amlwg mewn ymddygiad yn yr ysgol. Parhaodd y gwelliant ar y pwyntiau dilynol. Ni effeithiwyd ar gyfraddau gorfywiogrwydd gan dderbyniad i ofal. Adroddodd y plant yn bositif iawn ar eu profiadau o ofal maeth. Mae'r astudiaeth hon yn bwysig oherwydd ei fod yn awgrymu pan fydd gofal maeth yn cael effaith bositif gellid gweld hyn yn gyflym iawn.

Ymddengys mai canfyddiadau mor bositif am effaith gofal maeth yw'r rheol fel arfer, nid yr eithriad. Er enghraifft, dilynodd Horwitz et al (2001) 120 o blant i fyny 12 mis ar ôl

iddynt fynd i mewn i ofal maeth yn Connecticut, UDA a gwerthuso newidiadau yn eu "hymddygiad ymaddasol". Cafwyd newidiadau positif arwyddocaol iawn, gydag ymddygiad plant yn symud o weithredu is na'r cyfartaledd i mewn i'r ystod normal. Roedd y newidiadau positif yn amlycaf i blant hŷn, merched, plant Affricanaidd Americanaidd, y rheiny a dreuliodd y cyfnod hiraf mewn gofal maeth, y rheiny a gafodd eu cam-drin a'r rheiny gyda'r nifer lleiaf o wasanaethau a argymhellwyd mewn gofal.

Cafwyd effaith bositif gofal hefyd mewn astudiaeth gan Taussig et al, a gymharodd plant arhosodd mewn gofal maeth â phlant tebyg a ddychwelwyd at eu rhieni genedigol. Edrychodd Taussig et al (2001) ar 149 o blant rhwng saith a 12 oed a ddychwelwyd adref o ofal maeth yn San Diego, UDA. O'u cymharu â phlant arhosodd mewn gofal maeth, roedd gan y plant y'u dychwelwyd adref broblemau cymdeithasol ac ymddygiadol mwy sylweddol. Roedd lefel eu hymddygiad hunan-ddistrywiol, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiadau peryglus yn uwch, ac roeddent yn fwy tebygol o fod wedi bod mewn trafferth â'r system cyfiawnder troseddol. Roeddent hefyd yn llai llwyddiannus yn yr ysgol.

Cynhaliwyd astudiaeth ddiddorol arall mewn sampl bach o blant maeth o'u cymharu â grŵp o blant cymhariaeth â sefyllfaoedd teuluol dan anfantais (Pears a Fisher, 2005 a a b). Cafwyd bod tueddiad i blant maeth feddu ar ddealltwriaeth emosiynol is a llai o fewnwelediad i deimladau pobl eraill, yn ogystal ag oedi datblygiadol yn cynnwys diffygion gwybyddol a chorfforol. Nid oedd y rhain yn gysylltiedig â hyd y cyfnod mewn gofal ond roeddent yn gysylltiedig â hanes o esgeulustod. Mae hwn yn ganfyddiad pwysig, oherwydd ei fod yn amlygu'r ffaith nad yw anawsterau ac anfanteision plant mewn gofal yn gysylltiedig â'u sefyllfaoedd cymdeithasol yn unig: gallai'r profiad o gamdriniaeth neu esgeulustod fod yn bwysig iawn hefyd.

Trafodaeth a Chasgliadau

O'u hystyried yn eu cyfanrwydd mae'r cyrff ymchwil hyn yn awgrymu dau beth sy'n ymddangos yn wrthgyferbyniol am ofal. Ar un llaw, mae ymchwil Brydeinig hŷn ar brofiadau a phrosesau gofal wedi canfod problemau sylweddol mewn gofal cyhoeddus. Maent yn nodi ei fod yn tueddu i greu segura ac oedi heb ffocws i blant, gyda chanlyniadau negyddol tebygol o safbwynt ei lles. Ar y llaw arall, mae astudiaethau o ganlyniadau i blant - ym Mhrydain a thramor - yn awgrymu er gwaethaf y sefyllfa negyddol ymddangosiadol y maent ynddi, mae plant sy'n profi gofal yn aml yn gwneud yn well nag y byddem wedi disgwyl. Mae gan blant a fabwysiadwyd ganlyniadau arbennig o dda, ond mae hyd yn oed y plant sy'n mynd i mewn i leoliadau gofal sy'n ymddangos yn llai positif, fel cartrefi preswyl neu ofal maeth, yn gwneud yn gymharol dda.

Mewn gwirionedd, nid yw'r canfyddiadau hyn o reidrwydd yn gwrthddweud ei gilydd - er eu bod yn cyfeirio at rhai o'r cymhlethdod sy'n perthyn i ymchwil a llunio polisi yn y maes hwn. Mae'n bosib bod plant sy'n mynd i mewn i ofal yn gwneud yn well nag yr oeddent gartref, ond bod cyfyngiadau sylweddol i'r system ag y gallent wneud yn llawer gwell. Mae hyn yn amlygu her arall wrth ddehongli ymchwil yn y maes hwn. Dadleuwyd yn gynharach nad yw'n deg cymharu plant mewn gofal â'r boblogaeth yn gyffredinol, oherwydd bod yr anfanteision lluosog sy'n digwydd cyn y profiad o ofal yn ei wneud yn amhosib darganfod effaith y gofal ei hun. Gwrthwyneb hyn yw bod gwelliant cymharol plant mewn gofal hefyd yn anodd i'w ddehongli. Mae plant yn mynd i mewn i ofal gydag anawsterau difrifol. Gallai rhywun ddisgwyl gwelliant - ond faint yw cynnydd "da"?

Nid oes un ateb syml i'r cwestiynau hyn. Yn Rhan 3 byddwn yn dychwelyd i ystyried peth o'r cymhlethdod sydd ynghlwm wrth ddadansoddi natur gofal a'i effaith ar blant, gyda'r nod o argymhell mentrau polisi ac arfer a allai helpu'r plant bregus iawn hyn. Fodd bynnag, cyn gwneud hynny trown i adolygu astudiaethau Prydeinig rhwng 1991 a 2006 gyda'r mwyaf i'w ddweud am les plant. Fel a nodwyd yn gynharach, mae hyn yn cynnwys adolygu tri math o astudiaeth:

(a) Astudiaethau oedd yn cymharu canlyniadau i blant aeth i mewn i ofal â'r rheiny i blant oedd yn profi anawsterau tebyg na aeth i mewn i ofal;

(b) Astudiaethau oedd yn edrych ar gynnydd plant mewn gofal dros amser;

(c) Astudiaethau oedd yn cymharu oedolion a fu mewn gofal gydag oedolion eraill a brofodd broblemau neu anawsterau.

(a) Astudiaethau Prydeinig (1991 – 2006) oedd yn cymharu canlyniadau i blant aeth i mewn i ofal â'r rheiny i blant oedd yn profi anawsterau tebyg na aeth i mewn i ofal

Nododd eich chwiliadau llenyddiaeth un astudiaeth Brydeinig yn unig rhwng 1991 a 2006 oedd yn ystyried cynnydd lles plant mewn gofal dros amser a chynnydd grŵp cymhariaeth o blant nad oeddent mewn gofal. Cynhaliwyd yr astudiaeth gan Heath, Colton a'u cydweithwyr a'i gyhoeddi mewn amrywiaeth o bapurau ar ddiwedd y 1980au a dechrau'r 1990au. Cymharodd Heath et al (1989) gynnydd addysgol ac ymddygiad 49 o blant mewn gofal maeth tymor canolig neu dymor hir o'u cymharu â 58 o blant yn byw gartref ond yn derbyn gwasanaethau gwaith cymdeithasol. Roedd y ddau grŵp yn gwneud yn gymharol wael ar ystod o fesurau, gyda'r rheiny oedd gartref â lefelau ychydig yn uwch o broblemau ymddygiad. Mewn astudiaethau dilynol (Colton a Heath, 1994) dros y ddwy flynedd nesaf ychydig yn unig o newid a gafwyd yn sefyllfa gymharol y naill grŵp na'r llall. Dansoddwyd hyn ymhellach gan Heath et al. (1994). Roedd yn anodd gwahanu elfennau effaith gofal maeth gan yr oedd plant yn aml yn symud rhwng lleoliadau, er enghraifft yn dychwelyd adref neu'n dod i mewn i ofal neu symud i leoliadau mabwysiadu. Un canfyddiad diddorol oedd bod plant a leolwyd gyda gofalwyr maeth oedd yn gymwys i lefel gradd o leiaf yn gwneud yn gymharol well yn addysgol - yn well na'r plant eraill mewn gofal maeth a'r plant yn y grŵp cymhariaeth. Fodd bynnag, nodwyd y gwahaniaeth hwn cyn dechrau'r astudiaeth h.y. ni welwyd gwelliant cymharol yn y cyfnod a astudiwyd. Nid yw felly'n bosib bod yn sicr bod cael gofalwyr sy'n gymwys yn academiaidd yn golygu bod y plant yn gwneud yn well yn addysgol.

Cyfyngiad pwysig yn yr astudiaeth hon yw na chafodd plant eu mesur pan aethant i mewn i ofal. Yn hytrach, cymharwyd grŵp o blant mewn gofal â grŵp gweddol debyg oedd yn derbyn gwasanaethau gwaith cymdeithasol. O ganlyniad, mae'n bosib bod gwahaniaethau rhwng y grwpiau cyn y pwynt mesur. Heb fesuriadau ar adeg mynd i mewn i ofal nid yw'n bosib bod yn siwr bod y grwpiau yn gymaradwy. Fodd bynnag, mae'r posibilrwydd bod y plant oedd yn derbyn gofal yn fwy tebygol o fod wedi profi camdriniaeth yn golygu y dylid nodi bod gan blant mewn gofal lefelau ychydig yn is o broblemau ymddygiadol o'u cymharu â'r rheiny arhosodd gartref.

Mae hefyd yn ddiddorol bod y rheiny â gofalwyr oedd a graddau yn gwneud yn well yn addysgol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried canfyddiadau Barber et al (2005) yn Awstralia, a gafodd bod gofal maeth yn cynhyrchu effaith bositif yn gyflym iawn. Mae'n bosib yn astudiaeth Heath et al cynhyrchodd gofal maeth peth "dal i fyny" cychwynnol ond nid aeth ymlaen i alluogi plant i ddianc rhag eu hanfantais gychwynnol. Ar gyfartaledd roeddent wedi bod yn eu lleoliad ers rhai blynyddoedd cyn i'r astudiaeth gael ei chynnal. Fel yr ydym wedi gweld uchod, darperir tystiolaeth amgylchiadol i gefnogi'r posibilrwydd hwn gan y gwahaniaeth ym mherfformiad addysgol plant yn ôl lefel cymwysterau eu gofalwyr. Credodd yr awduron bod diffyg gofalwyr maeth yn golygu nad oedd proses gyfateb yn digwydd. Os yw hyn yn wir, yna mae'n awgrymu bod peth effaith o ganlyniad i dderbyn gofal ond bod hyn cyn dechrau'r astudiaeth a'i fod yn fwy amlwg pan oedd gofalwyr maeth wedi'u haddysgu i lefel gradd. Yn ogystal â diffyg mesuriadau adeg derbyn, mae'r cyfyngiadau eraill yn cynnwys y ffaith fod yr astudiaeth yn gymharol hen, mae'r niferoedd yn gymharol fach ac mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau addysgol yn unig.

Fodd bynnag, ymddengys mai ymchwil Heath et al yw'r unig astudiaeth Brydeinig sy'n defnyddio dull cwasi-arbrofol i archwilio effaith gofal. Nid yw ei chanfyddiadau yn arbennig o bositif am effaith gofal, fodd bynnag nid ydynt ychwaith yn negyddol. Nid yw gofal maeth yn galluogi plant i oresgyn anfantais addysgol gychwynnol yn llwyr; ar y llaw arall, o ystyried bod gan y plant mewn gofal sgoriau tebyg iawn i'r rheiny mewn teuluoedd yr oedd gweithwyr cymdeithasol yn gweithio gyda hwy, ymddengys yn deg awgrymu nad oedd gofal ychwaith yn achosi perfformiad isel y plant.

Er mai astudiaeth Heath et al oedd yr unig un yn cynnwys grŵp cymhariaeth, edrychodd dwy astudiaeth arall ar grŵp ehangach o blant mewn perygl a chynnig sylwadau ar ganlyniadau i'r rheiny oedd yn mynd i mewn i ofal o'u cymharu â'r rheiny na aeth i mewn i ofal. Cynhaliodd Gibbons et al. (1995) astudiaeth ddilynol o 170 o blant a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant am gamdriniaeth gorfforol 9 i 10 mlynedd ar ôl cofrestru. Cafodd y plant eu cyfateb â phlentyn tebyg oedd yn mynychu'r un ysgol ond nad oedd ganddynt gysylltiad blaenorol â diogelwch plant. At ein dibenion ni, yr agwedd bwysicaf ar yr astudiaeth hon oedd bod dros 30% o'r grŵp astudiaeth wedi mynd i mewn i'r system ofal. I'r mwyafrif roedd y profiad o ofal dirprwyol yn bositif ac roedd cynnydd mesuradwy yn eu twf corfforol. Yn nhermau eu hymddygiad a'u lles meddyliol ni chafwyd tystiolaeth o fantais gyffredinol. Roedd plant mewn gofal maeth hir dymor yn tueddu i ddangos llai o broblemau ymddygiad a chyfeillgarwch ac nid oeddent mor isel â phlant a fabwysiadwyd. Roedd gan blant a fabwysiadwyd gynifer o broblemau ymddygiad â'r rheiny oedd wedi aros gyda'u rhieni naturiol.

Mae'r canfyddiad bod y plant mewn gofal maeth wedi gwneud yn well na'r rheiny a fabwysiadwyd i'r gwrthwyneb yn llwyr i'r llenyddiaeth gyffredinol. Fel y nodwyd uchod, yn gyffredinol nodwyd bod mabwysiadu yn esgor ar ganlyniadau positif iawn, gyda rhan fwyaf y plant a fabwysiadwyd â lefel debyg o les â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiad hwn, oherwydd rodd y niferoedd mewn gwahanol fathau o leoliad yn gymharol fach. At hynny, o ystyried natur y sampl mae'n bosib fod y dewis o fabwysiadu yn gysylltiedig â chamdriniaeth fwy difrifol i blant oedd yn mynd i mewn i ofal. Gallai fod hyn wedi digwydd pe bai gweithwyr cymdeithasol wedi dewis darparu gofal maeth i blant y dioddefodd camdriniaeth lai difrifol ac felly y bwriad oedd y byddent yn parhau i fod mewn cysylltiad â'u teuluoedd, tra bod mabwysiadu'n cael ei ddewis pan oedd y gamdriniaeth mor ddifrifol nas ystyrir bod modd cynnal perthnasoedd teuluol. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau yn nodi effaith bositif bosib

gofal maeth i blant mewn perthynas ag ymddygiad, datblygiad emosiynol, twf corfforol a phatrymau cyfeillgarwch. Mae'r astudiaeth hon felly yn awgrymu y gall gofal maeth fod yn ganlyniad positif i rai plant.

Dilynodd astudiaeth ddiweddar gan Forrester a Harwin (2006; 2007) 186 o blant i fyny y dyrannwyd iddynt weithiwr cymdeithasol lle roedd cam-drin cyffuriau neu alcohol gan riant yn bryder, ddwy flynedd ar ôl i'r teulu gael eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol. At hynny, gallai'r canfyddiadau fod yn benodol berthnasol i'r gwasanaeth Opsiwn 2. Mae dau o ganfyddiadau'r astudiaeth o bwys penodol. Yn gyntaf, daeth 38% o'r plant i mewn i ofal ar ryw bwynt ac ar y pwynt dilynol nad oedd 54% yn dal i fyw gyda'u mam. Yn ail, yn seiliedig ar wybodaeth o ffeiliau gwaith cymdeithasol gwnaeth yr ymchwilyr benderfyniad ar les plant. Cafwyd mai'r rhagfynegydd mwyaf o ganlyniad lles positif oedd pan nad oedd plant yn byw gyda'u rhiant genedigol bellach. At hynny, roedd llawer o'r plant oedd yn byw gartref yn parhau i fod mewn risg o niwed sylweddol o ganlyniad i anawsterau eu rhieni.

Cyfyngiad difrifol yn yr astudiaeth hon yw'r ddibyniaeth ar gofnodion gwaith cymdeithasol. Gallai gweithwyr cymdeithasol gofnodi problemau lles plant yn fwy trylwyr i blant sydd gartref na'r rheiny sydd mewn gofal. Fodd bynnag, mae cryfder y berthynas yn awgrymu y gallai mynd i mewn i ofal fod wedi bod yn ymyrraeth bositif i lawer o'r plant hyn. Mae hefyd yn agor y posibilrwydd bod gweithwyr cymdeithasol neu eraill yn cael trafferth i weithio'n effeithiol gyda phlant oedd yn byw gartref yr oedd eu rhieni yn camddefnyddio cyffuriau neu alcohol.

(b) Astudiaethau Prydeinig (1991 – 2006) oedd yn edrych ar gynnydd plant mewn gofal dros amser

Er mai un astudiaeth yn unig a ddefnyddiodd grŵp cymhariaeth i edrych ar gynnydd mewn lles dros amser, daeth yn gymharol gyffredin i ymchwil i edrych ar gynnydd grwpiau o blant mewn mathau penodol o leoliadau dros wahanol gyfnodau o amser. (Yn wir, dyma'r rheol erbyn hyn - er bod ei absenoldeb o lawer o astudiaethau cynnar a dibyniaeth ar benderfyniadau eithaf argraffadol gan ymchwilyr yn drawiadol). O ganlyniad, mae corff sylweddol o dystiolaeth mewn perthynas ag amrywiol elfennau cynnydd lles plant mewn gwahanol fathau o leoliadau gofal. Ni all ymchwil o'r fath ddweud wrthym beth yw effaith gofal mewn gwirionedd - oherwydd nid yw'n bosib gwahanu'r rheswm dros blentyn yn derbyn math penodol o leoliad rhag effaith y lleoliad ei hun yn bosib - fodd bynnag mae'n darparu llawer o dystiolaeth am y mathau o gynnydd neu ddiffyg cynnydd y mae plant yn eu gwneud mewn gwahanol fathau o leoliadau gofal.

At ei gilydd nodwyd gennym un ar ddeg o astudiaethau Prydeinig oedd yn edrych ar gynnydd lles plant dros amser a gyhoeddwyd rhwng 1991 a 2006. Fodd bynnag, nid yw'n anghyffredin i waith ymchwil gwaith cymdeithasol gael ei gyhoeddi y tu allan i gyfnodolion prif ffrwd - er enghraifft, mewn monograffau neu adroddiadau ymchwil - ac felly mae'n bosib bod rhai astudiaethau wedi cael eu colli. Fodd bynnag, credwn ein bod wedi nodi rhan fwyaf yr astudiaethau allweddol yn mesur newidiadau mewn lles dros amser.

Rydym yn grwpio'r astudiaethau o dan y penawdau canlynol:

- astudiaethau cyffredinol (sy'n ystyried trawstoriad o leoliadau),
- astudiaethau mabwysiadu,
- astudiaethau maethu,
- astudiaethau gofal preswyl.

Astudiaethau cyffredinol

Cynhaliwyd astudiaeth oedd yn cwmpasu canlyniadau lles mewn ystod eang o wahanol fathau o leoliad gan Harwin et al (2003). Roedd ffocws yr astudiaeth ar gynlluniau gofal a wnaed ar ddiwedd gweithdrefnau gofal. Dilynwyd i fyny ar gant o blant o 57 o deuluoedd oedd yn destun gorchmynion gofal ym 1997 21 mis yn ddiweddarach. Gwnaed ymdrech i fesur cynnydd mewn lles drwy benderfyniad gan ymchwilydd yn seiliedig ar wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau a chydgasglu cynnydd lles mewn perthynas â sawl maes. Ar ddiwedd yr astudiaeth roedd 60% o'r plant yn y lleoliad a nodwyd yn y cynllun gofal. Y plant y gweithredwyd eu cynlluniau gofal a ddangosodd y cynnydd lles gorau dros y cyfnod ac a ddangosodd y nifer lleiaf o anghenion heb eu cwrdd. Roedd cynlluniau nas gweithredwyd yn gysylltiedig â'r cynnydd lles isaf. Pan oedd lleoliadau yn chwalu, aeth rhan fwyaf y plant i mewn i ofal maeth. Erbyn diwedd yr astudiaeth roedd dwbl nifer y plant a gynlluniwyd mewn gofal maeth. Er bod lles llawer o blant wedi gwella ers adeg y gorchymyn gofal, roedd gan y plant lefelau uchel o anawsterau adeg y gorchymyn gofal ac ar y dilyniant roedd gan 40% "anghenion heb eu cwrdd" oedd yn ganolig neu'n ddifrifol (h.y. problemau neu anawsterau) mewn lles emosiynol ac ymddygiadol neu mewn perthnasoedd teuluol a chymdeithasol, a 30% mewn addysg.

At ein dibenion ni mae dau wendid yn astudiaeth Harwin et al. Un yw bod y plant wedi bod mewn gofal am beth amser cyn i'r gorchymyn gofal gael ei ddyfarnu. Yr ail yw nad yw'r mesur canlyniad lles yn gadarn iawn (nodwedd nifer o astudiaethau gwaith cymdeithasol). Fodd bynnag, mae nifer o nodweddion diddorol yn yr astudiaeth. Yn gyntaf, ac yn yr un modd â gwaith gan Hunt (Hunt a Macleod, 1999) cafodd Harwin et al yn gyffredinol bod gweithwyr cymdeithasol yn paratoi ac yn gweithredu cynlluniau a anelwyd at gyflawni lleoliadau parhaol i blant. Mae hyn i'r gwrthwyneb yn llwyr o'r sefyllfa hanesyddol a ddisgrifiwyd gan Rowe a Lambert (1973) ac eraill. Mae'n awgrymu bod datblygiadau polisi, ymchwil ac arfer dros y 25 mlynedd diwethaf wedi cael effaith sylweddol ar leihau segura ac annog sefydlogrwydd. Yn ail, mae'r canfyddiadau yn cefnogi'r darlun a ddarparwyd gan astudiaeth Gibbons, sef ei fod yn ymddangos bod gofal yn gwella lles plant ond nad yw'r arwain at fod lles plant mewn gofal yn gyfartal â lles y boblogaeth yn gyffredinol. Yn olaf, canfyddiad pwysig o astudiaeth Harwin et al oedd mai'r rhagfynegydd unigol gorau o safbwynt lles plant yn peidio â gwella oedd cynllun nas cyflawnwyd. Roedd hyn yn bwysicach nag oed neu lefelau anawsterau'r plentyn. Cynlluniau yr oeddent yn arbennig o debygol o fethu oedd rhai â'r bwriad o ddychwelyd plant adref.

Astudiaethau mabwysiadu

Y duedd yn y gwaith helaeth ar fabwysiadu a drafodwyd uchod oedd y cafwyd canlyniadau da iawn ar gyfer mabwysiadu babanod. Fodd bynnag, gwyddys llai am ganlyniadau mabwysiadu plant hŷn neu blant ag anghenion arbennig. Bu'r rhain yn ffocws ymchwil dros y 15 mlynedd diwethaf, sydd wedi archwilio pa mor bositif y gallai mabwysiadu fod i grwpiau sydd yn draddodiadol yn anos eu gosod - fel plant hŷn, grwpiau o frodyr a chwiorydd, plant ag anghenion arbennig neu blant o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Mae nifer o astudiaethau wedi edrych ar leoli plant rhywfaint yn hŷn mewn lleoliadau mabwysiadu (h.y. plant rhwng 5 ac 11 oed, er bod yr oed yn amrywio rhwng astudiaethau). Yn gyffredinol, awgryma'r ymchwil fod y canlyniadau yn bositif i ran fwyaf y plant hyn - ond erbyn y dilyniant mae llawer o'r plant yn parhau i brofi problemau sylweddol. Edrychodd Rushton et al. (1993) ar 16 o fechgyn rhwng 5 - 9 oed mewn lleoliadau parhaol. Cynhaliwyd y dilyniant blwyddyn a 5 mlynedd ar ôl trefnu'r lleoliad. Cafodd yr ymchwilwyr fod gan y plant lefelau uchel o aflonyddu ymddygiadol ac emosiynol cyn mynd i mewn i'r lleoliad. Yn gyffredinol erbyn 5 mlynedd roedd mwyafrif y bechgyn yn dangos gwelliannau sylweddol ond roedd gan draean nifer fawr o broblemau o hyd - yn enwedig mewn perthynas â pherthnasoedd cymdeithasol a sylw. Eto, mae'r patrwm yn un o welliant heb i blant gyflawni patrymau "normal" o anawsterau.

Edrychodd Quinton et al (1998) ar 61 o blant "hŷn" (rhwng 5 a 9 oed) a osodwyd mewn lleoliadau parhaol (mabwysiadu neu faethu) a'u dilyn i fyny ar ysbeidiau o 1, 6 a 12 mis yn dilyn trefnu'r lleoliad. Y prif ganlyniadau oedd sefydlogrwydd y lleoliad ymhen blwyddyn a lleihad ar gyfartaledd ym mhroblemau'r plentyn. 3 achos o amharu yn unig a gafwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf. Ffurfiodd tri chwarter ohonynt berthnasoedd da gyda gofalwyr newydd. Cafodd y newid ymddygiadol ganfyddiadau mwy cymysg: ymhen blwyddyn, roedd tua thraean o broblemau'r plant wedi lleihau (n=22), i draean arall nid oedd llawer o newid (n=19) ac i draean arall roedd cynnydd mewn ymddygiad problematig (n=17). Roedd tri newidyn yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth: gwrthod amlwg gan y teulu genedigol, disgrifio'r plentyn fel un aflonydd, a diffyg ymateb sensitif gan ofalwyr yn ystod wythnosau cynnar y lleoliad. Lleolwyd mwyafrif y plant (49) gyda chynllun pendant i'w mabwysiadu. Roedd y grŵp maethu (8) yn rhy fach i ganiatáu profi ystadegol ond ni chafodd yr awduron "unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng lleoliadau mabwysiadu a maethu mewn perthynas â naill ai newid ymddygiadol dros y flwyddyn neu sefydlogrwydd y lleoliad" (t.63).

Dilynodd Rushton a Dance (2004) 133 o blant i fyny a leolwyd yn ystod canol eu plentynodod (5-11) gyda thelueoedd mabwysiadol i ganol eu glaslencyndod (14 oed ar gyfartaledd). Yn y dilyniant, roedd yn agos at dri chwarter (71%) o'r lleoliadau yn parhau. Fodd bynnag, roedd dros draean o'r 99 o leoliadau oedd yn parhau yn broblematig iawn (er enghraifft roedd plant yn dangos problemau datblygiadol ac ymddygiadol yn cynnwys ymosoddedd, distrywioldeb a gorfywiogrwydd).

Edrychodd Selwyn et al (2006) ar sampl o 130 o blant rhwng 7-21 oed a ddilynwyd i fyny rhwng 6 ac 11 mlynedd ar ôl penderfynu mai mabwysiadu fyddai orau iddynt hwy. Roedd mesurau canlyniadau yn canolbwyntio ar yrfa ofal y plant (h.y. lle y bu ansefydlogrwydd). At hynny, nid yw'r astudiaeth yn cwrdd â'n meini prawf llym ar gyfer cynhwysiad - fodd bynnag caiff ei gynnwys o ganlyniad i nifer cyfyngedig yr astudiaethau sy'n cynnig gwybodaeth ar les plant ac oherwydd yr wybodaeth bwysig y mae'n ei darparu. Adeg dilyniant, roedd 80 o blant (62%) yn parhau mewn thelueoedd mabwysiadol (83% o'r rheiny a leolwyd mewn gwirionedd), roedd 26% mewn gofal maeth hir dymor neu drefniant parhaol arall ac roedd 12% o'r plant wedi cael gyrfa ofal ansefydlog - gyda lleoliadau yn chwalu a methu â chyflawni sefydlogrwydd. Rhagfynegiadau arwyddocaol o'r grŵp a fabwysiadwyd yn llwyddiannus oedd oed ar adeg mynd i mewn i ofal (oed ar gyfartaledd o 2.6 mlynedd yn erbyn 4.1 blynedd i blant a faethwyd a phlant â gyrfa ofal ansefydlog) ac amser byrrach rhwng mynd i mewn i ofal a chael penderfyniad y dylid ceisio lleoliad parhaol. Fodd bynnag, dim ond chwarter o'r plant a fabwysiadwyd yn llwyddiannus oedd heb anawsterau adeg y dilyniant oedd yn amharu ar eu bywydau a'u datblygiad mewn rhyw ffordd (ond mae hyn yn cymharu â 7% yn unig adeg y lleoli).

Y rhagfynegiadau cryfaf o yrfaeodd gofal ansefydlog oedd plant a aeth i mewn i ofal gyda phroblemau ymddygiad a gorfywiogrwydd; nid oedd camdriniaeth ac esgeulustod yn rhagfynegiadol yn rhannol oherwydd bod tua 90% â phrofiad ohono. Ychydig yn unig o wahaniaethau oedd mewn canlyniadau rhwng plant a fabwysiadwyd ac a faethwyd, er bod plant a fabwysiadwyd yn dangos gwell ymlyniadau, hyd yn oed pan ystyriwyd problemau ymlyniad cyn lleoli. Awgryma'r awdurdod y gallai hyn fod o ganlyniad i ofalwyr maeth yn cael llai o gyfrifoldeb rhieni a diffyg sicrwydd a ganfyddwyd. Mae'r awduron yn edrych hefyd ar gostau'r tair gyrfa ofal wahanol. Yn hollbwysig cafwyd yn ogystal ag oedi yn effeithio ar gyfleoedd plant mewn bywyd, roedd hefyd yn gysylltiedig â chost uwch: roedd plant nad oeddent yn dod o hyd i leoliad sefydlog yn costio 7 gwaith yn fwy na'r rheiny a fabwysiadwyd.

Grŵp arall sydd wedi tueddu i fod yn anodd eu gosod mewn dewisiadau parhaol eraill yw plant o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Dilynodd Thoburn et al (1999) 51 o blant o darddiad lleiafrifoedd ethnig i fyny oedd mewn lleoliadau teuluol parhaol 7-15 mlynedd ar ôl trefnu'r lleoliad (oedd wedi digwydd rhwng 1980 a 1984). Roedd chwarter ohonynt mewn gofal maeth. Roedd y cyfraddau amharu yr un peth rhwng gofal maeth a gofal mabwysiadol. Nid oedd perthynas rhwng cyswllt a sefydlogrwydd y lleoliad. Daethpwyd i'r casgliad y gall lleoliad parhaol gyda dieithriaid fod yn foddhaol iawn a bod teuluoedd Affricanaidd-Caribïaidd a De Asiaidd yn aml yn dda wrth hwyluso cyswllt.

Ymgwymerwyd ag astudiaeth derfynol yn y maes hwn i edrych ar ganlyniadau mabwysiadu i blant o Romania (Anderson-Wood et al, 1999). At hynny, mae'r astudiaeth yn llai uniongyrchol berthnasol i'r drafodaeth gyfredol. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau yn rhannol berthnasol oherwydd cafodd grŵp cymhariaeth o 52 o blant DU a fabwysiadwyd eu cynnwys. Dilynodd Anderson-Wood et al 165 o blant Romanaidd i fyny ar ddechrau'r 90au yn y DU ar ôl 4 blynedd a 6 mlynedd. Nid oedd modd gwahaniaethu plant a fabwysiadwyd cyn chwe mis oed rhag y grŵp cymhariaeth erbyn 4 a 6 mlynedd gan eu bod wedi dal i fyny. I'r rheiny na fabwysiadwyd cyn chwe mis, roedd y dal i fyny gwybyddol yn uwch na datblygiad cymdeithasol. Tair problem ymddygiadol gyffredin oedd: ymlyniad annodweddiadol, patrymau ymddygiad cwasi-awtistig, diffyg sylw a gorfywiogrwydd. Ymddengys bod y rhain yn gysylltiedig â mabwysiadu hwyrach yn dilyn gofal sefydliadol esgeulus iawn. Fodd bynnag, ymddengys ar y cyfan bod gan fabwysiadu botensial sylweddol ar gyfer gwella problemau difrifol mewn plant, er yr hwyrach y digwyddodd y mabwysiadu a'r hiraf y cafodd plant eu hamlygu i esgeulustod difrifol, y gwaethaf y canlyniadau hirdymor.

Yn gyffredinol, mae'r llenyddiaeth fabwysiadu yn cefnogi'r farn y gall mabwysiadu gael ei ddefnyddio'n llwyddiannus gydag ystod ehangach o blant na'r babanod newydd-anedig, sef testun y ffocws traddodiadol. Gellir mabwysiadu plant rhwng 5 ac 11, plant o leiafrifoedd ethnig a phlant mewn grwpiau o frodyr a chwiorydd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae rhai ffactorau pwysig eraill i'w hystyried. Y cyntaf yw efallai mai'r cyflenwad o leoliadau ar gyfer y plant hyn yn hytrach na'r plant eu hunain sy'n cynnig her benodol. I'r perwyl hwn mae'r ymchwil yn ddefnyddiol wrth nodi na ddylai gweithwyr proffesiynol osgoi ceisio mabwysiadu ar gyfer plant yn y grwpiau hyn sydd ychydig yn anos eu mabwysiadu. Fodd bynnag, nid yw'n mynd i'r afael â'r anawsterau a gafwyd yn aml wrth recriwtio pobl i fabwysiadu plant yn y categorïau hyn, a'r perygl dilynol o oedi ar gyfer y plant. Yn ail, er bod y canfyddiadau yn bositif ar y cyfan, roedd cyfraddau methiant lleoliadau yn uwch i blant hŷn nag i blant iau, ac i blant gyda mwy o anawsterau nag i'r rhai â llai ohonynt. Mae'n rhaid gwneud penderfyniad cydbwysu gofalus felly rhwng y

posibilrwydd o sefydlogrwydd (a'r canlyniadau positif sy'n gysylltiedig ag ef) a'r risg o leoliad yn methu (gyda'i risgiau cysylltiedig ar gyfer lles plant) (gweler Rushton, 2003). Mae'r astudiaethau hyn yn cefnogi dadl dros geisio mabwysiadu ar gyfer plant sydd rywfaint yn hŷn a gyda phlant â rhai anawsterau - ond maent hefyd yn amlygu'r elfen o risg mewn ymagwedd o'r fath, ac felly yr angen am benderfyniad ar gyfer pob plentyn sy'n cydbwysu'r risg hwn yn erbyn manteision posib mabwysiadu.

Gofal maeth

Ymgwymerwyd â'r astudiaeth bwysicaf o ofal maeth gan Sinclair et al (2004). Dilynwyd 596 o blant maeth i fyny ganddynt 3 mlynedd ar ôl trefnu lleoliad o sampl trawstoriadol o blant y gofelir amdanynt o 7 awdurdod lleol. Yn gyffredinol, dangosodd y plant welliannau yn eu lles dros amser. Ni wnaeth y rhai a adawodd i fynd adref neu i mewn i fyw'n annibynnol cystal â'r rhai a arhosodd mewn gofal maeth neu gael eu mabwysiadu. Ymddengys mai mabwysiadu oedd y math mwyaf parhaol o ofal ond dim ond i blant ifanc o dan 5. Nid oedd rhan fwyaf y plant maeth yn dymuno cael eu mabwysiadu. Awgrymodd yr awduron nad oedd gofal maeth yn cynnig teulu sicr am oes, ond ei fod yn cynnig peth sicrwydd i'r rheiny rhwng 4 a 14 oed. Ffactorau cysylltiedig â chanlyniadau oedd: yr hyn y mae plant yn ei ddymuno, y sefyllfa yn yr ysgol, perthnasoedd â gofalwyr presennol, perthnasoedd a chyswllt â'r teulu genedigol. Fel y gwelir yn aml (ac a drafodir ymhellach yn Rhan 3), roedd y broses o adael gofal yn llawer llai positif na bod mewn gofal maeth.

Daeth Sinclair i'r casgliad bod profiadau a chanlyniadau gofal maeth yn enghraifft o'r ffaith fod yna le, yn wyneb nifer o anawsterau, ar gyfer cariad, synnwyr da, sgil, hiwmor da, ymrwymiad a gwydnwch. Roedd canlyniadau llwyddiannus yn seiliedig ar leoliadau maeth gyda rhianta ymrwymedig, ynghyd â sefydlogrwydd, mynediad diogel i deuluoedd genedigol a chyflawniad yn yr ysgol a'r gwaith. Er bod amharu yn uchel yn gyffredinol o'u cymharu â lleoliadau mabwysiadol, a bod llawer o'r plant yn symud am amrywiaeth o resymau (yn cynnwys dychwelyd adref, symud i annibyniaeth neu ddewis arall parhaol) fodd bynnag roedd 40% o blant rhwng 4-14 oed yn parhau gyda'r un gofalwr. Ymddengys bod yr anawsterau yn gysylltiedig nid â'r hyn sy'n digwydd mewn gofal maeth ond yr hyn sy'n ei ddilyn, y llwybr mwyaf tebygol allan o ofal maeth i blant 4-14 oed oedd dychwelyd adref. Dim ond traean o ailuniadau oedd yn cael eu hystyried yn ddiogel.

I Sinclair roedd y broblem yn gysylltiedig â ffordd nad oedd gofal maeth ar y pryd yn cael ei weld fel datrysiadau parhaol i broblemau'r plentyn er gwaethaf nifer isel yr achosion o fabwysiadu. Argymhellodd Sinclair y dylid lleihau'r gwahaniaethau rhwng maethu a mabwysiadu drwy leihau nifer y chwaliadau a galluogi mwy o blant i aros ar ôl cyrraedd 18. Mae Sinclair hefyd yn amlygu'r angen i blant mewn gofal gael stori gydlynus ynghylch pam y gofelir amdanynt a derbyn y gorffennol mewn ffordd sy'n caniatáu iddynt symud ymlaen.

Ymgwymerwyd ag ymchwil pwysig pellach yn y maes hwn a esgeuluswyd i raddau gan Schofield a'i gydweithwyr. Cynhaliodd Schofield a Beek astudiaeth yn edrych ar gynnydd 53 o blant tair blynedd ar ôl iddynt gael eu gosod mewn gofal maeth hir-dymor (Schofield et al, 2000; Beek a Schofield, 2004; Schofield et al., 2005). Mae'r canfyddiadau yn ddifur - maent yn dangos yn bwerus y rhyngberthynas gymhleth rhwng ffactorau sy'n llunio canlyniadau i blant mewn gofal. Yn gyntaf, roedd y lefel uchel o anfantais flaenorol a brofwyd gan y plant hyn cyn mynd i mewn i leoliad maethu parhaol yn drawiadol. Roedd y rhan fwyaf wedi cael eu cam-drin, roedd gan hanner ohonynt broblemau emosiynol

a/neu ymddygiadol difrifol ac i lawer ohonynt gwaethygyd y problemau hyn gan gyfnodau hir yn aros am y lleoliad maethu parhaol. Tair blynedd ar ôl trefnu'r lleoliad, gan ddefnyddio cyfuniad o offerynnau safonol a phenderfyniadau o gyfweliadau, rhannodd yr ymchwilwyr y plant yn rheiny oedd yn gwneud cynnydd da (60%), cynnydd ansicr (27%) a'r rheiny oedd yn "dirywio'n barhaus" (13%).

Yn gyffredinol, mae hwn yn ganfyddiad positif am ofal maeth fel opsiwn parhaol i blant ag anawsterau difrifol. Er gwaethaf eu profiadau negyddol blaenorol, roedd rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da ac i lawer cafwyd enillion mesuradwy mewn perthynas â lles ymddygiadol, emosiynol ac addysgol. Eto, nid oedd hyn yn wir i'r holl blant. Roedd rhai yn parhau i brofi problemau difrifol ac roedd eraill wedi dirywio, yn aml oherwydd materion nas datryswyd gyda rheini genedigol a phroblemau cyswllt parhaus. Yn wir, roedd perthnasoedd "cymhleth" gyda'r teulu genedigol yn hollbwysig yn y nifer bach o blant oedd yn "dirywio'n barhaus", gan gyfrannu at chwalu lleoliadau a theimladau o ofn a phryder i'r plant hyn. Mae Schofield et al (2005) hefyd yn ceisio dadansoddi rhai o'r cadwynau achosol sy'n arwain at well ganlyniadau i blant gan ddefnyddio cymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol. Maent yn amlygu pwysigrwydd enfawr gofalgwyr maeth ymrwymedig, cyson a gofalgwr oedd yn aml yn llwyddo i wneud gwahaniaeth positif sylweddol i blant mewn amgylchiadau anodd iawn. Mae Schofield et al hefyd yn pwysleisio rôl gweithwyr cymdeithasol wrth gefnogi plant a gofalgwyr maeth. Roedd rhan fwyaf y plant â chanlyniadau da yn derbyn ymweliadau rheolaidd gan eu gweithwyr cymdeithasol; nid oedd cyfran uchel o'r rheiny gyda chanlyniadau cymysg neu wael yn cael ymweliadau cyson. Mae Schofield et al yn awgrymu bod diffyg cefnogaeth gan weithwyr cymdeithasol yn "ffactor risg" ychwanegol ar gyfer canlyniad gwael: nid yw ymweliadau rheolaidd mae'n debyg yn golygu bod pethau'n mynd yn dda mewn lleoliadau maeth, ond pan mae pethau'n mynd yn wael maent yn fodd hanfodol o nodi anawsterau a darparu adnoddau priodol.

Gofal preswyl

Mae "gofal preswyl" yn sector cymhleth o ofal cymdeithasol i blant. Mae'n cynnwys cartrefi awdurdodau lleol a phreifat, llety diogel ac ysgolion preswyl arbenigol, sefydliadau bach gydag ychydig yn unig o blant a rhai unedau preswyl eithaf mawr; gall gofal preswyl amrywio hefyd o leoliad brys byr dymor i leoliad parhaol mewn cymuned therapiwtig. Nid yw felly'n bosib gwneud datganiadau cyffredinol am effeithiolrwydd "gofal preswyl". Yn hytrach, mae'n bosib canolbwyntio ar dystiolaeth ymchwil ar ganlyniadau mathau arbennig o leoliad. Hyd yn oed o'r safbwynt hwn fodd bynnag, ychydig yn gymharol o ymchwil sydd ar ofal preswyl yn dilyn i fyny ar les dros amser a gyhoeddwyd ers 1991. Mae hyn yn rhannol oherwydd cafwyd gostyngiad sylweddol iawn yn y defnydd o ofal preswyl, gyda llawer o awdurdodau lleol llai nad ydynt bellach yn darparu eu hunedau preswyl eu hunain. O ganlyniad, mae cyfran llawer llai o blant Prydeinig sydd mewn gofal mewn gofal preswyl o'u cymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill (Selwyn a Sturgess, 2002). Fodd bynnag, ymddengys ei fod yn fwch amlwg yn y sylfaen dystiolaeth.

Ymgwymerwyd ag un astudiaeth a ddilynodd i fyny ar les plant ac a ddefnyddiodd grŵp cymhariaeth (bach) gan Little a Kelly (1998). Cynhaliwyd astudiaeth hydredol o blant a fu mewn gofal mewn cymuned therapiwtig wedi'u cyfateb i grŵp o 8 gafodd eu hasesu ond na aethant i mewn i ofal. Dilynwyd pob un o'r 68 i fyny am 2 flynedd ar ôl iddynt adael. Roedd y rhai a adawodd y gymuned therapiwtig 4 gwaith yn fwy tebygol i gael gwaith a 3 gwaith yn llai tebygol o gael eu heuogfarnu o'u cymharu â phlant mewn

lleoliadau preswyl eraill. Roedd gan y rhai arhosodd am gyfnod byrrach a dychwelwyd adref ganlyniadau gwaeth.

Edrychodd Bullock et al. (1998) ar gyfraddau ail-euogfarnu ar gyfer 204 o laslanciau mewn unedau triniaeth diogel arhosiad hir dros ddwy flynedd (math penodol o ddarpariaeth nad yw'n bodoli bellach). Yn nhermau cyfraddau ail-euogfarnu, y canolfannau triniaeth arbenigol oedd orau. Lle y nodwyd angen gan y canolfannau triniaeth a bod ymyraethau yn mynd i'r afael â'r anghenion hynny, cyflawnwyd gwell canlyniadau. Roedd cyferbyniad rhwng yr arian yr oedd awdurdodau lleol yn ei wario tra roedd y bobl ifanc mewn canolfannau triniaeth a'r ychydig a ddaeth wedyn ar ôl iddynt adael yn 18 oed. Yn gyffredinol, roedd y canfyddiadau yn galonogol am effaith gofal ar y grŵp heriol iawn hyn o bobl ifanc; ond eto roedd ar ôl gofal yn wael o'i gymharu â gofal.

(c) Astudiaethau Prydeinig (1991-2006) oedd yn cymharu oedolion a oedd wedi bod mewn gofal ag oedolion eraill a oedd wedi profi problemau neu anhawster

Mae nifer o astudiaethau wedi defnyddio setiau data graddfa fawr presennol i archwilio'r canlyniadau i blant sy'n mynd i mewn i ofal. Cryfder pwysig ymagwedd o'r fath yw y gall ddarparu gwybodaeth ddilynol hir dymor ar sampl sylweddol ac mae hyn yn caniatáu cymharu plant mewn gofal a phlant mewn sefyllfaoedd eraill lle mae anawsterau posib (e.e. cael eu magu gan deuluoedd un rhiant neu mewn tlodi). Fodd bynnag, yn ôl ei natur mae'r data yn adrodd ar ganlyniadau'r system ofal o beth amser yn ôl (yn fras y 1960au a'r 1970au). O ganlyniad byddai'r rhesymau y mae plant yn mynd i mewn i ofal a'r gofal y gellid disgwyl iddynt ei dderbyn (h.y. gofal preswyl yn bennaf) yn wahanol iawn i'r rheiny a ddarparwyd nawr. Yn ogystal, gall yr wybodaeth a gesglir fod yn gyfyngedig iawn a gall fod problemau wrth ddilyn pobl i fyny (efallai yn benodol y rheiny â ffyrdd o fyw afluniaidd) yn y tymor hir. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnig golwg gwerthfawr i mewn i ganlyniadau tymor hwy y system ofal.

Defnyddiwyd yr Astudiaeth Datblygiad Plant Genedlaethol (NCDS) (arolwg graddfa fawr o sampl cynrychioliadol o tua 17,000 o bobl) i archwilio canlyniadau ar gyfer plant y gofelir amdanynt. Cymharodd Buchanan et al (2000) ganlyniadau ar fesurau lles emosiynol yn 16 a 33 oed yn yr NCDS. Dangosodd y canlyniadau nad oedd "rhianta ailstrwythuredig" (h.y. ysgaru) ynddo'i hun yn ffactor risg ar gyfer diffyg ymaddasiad, fodd bynnag roedd profiad o ofal neu anfantais gymdeithasol yn benodol gysylltiedig â phroblemau seico-gymdeithasol yn 16 oed. Awgrymodd y canfyddiadau hefyd fod cyfyngder seicolegol yn 33 yn gysylltiedig â diffyg ymaddasiad yn 16. Roedd profiad yn ystod plentynod o rieni sengl neu ofal yn gysylltiedig â chyfyngder seicolegol fel oedolion mewn dynion ond nid mewn menywod. Cafodd Buchanan (1999) yn 16 oed, roedd gan 25% o blant a fu mewn gofal sgoriau sylweddol ar fesurau o broblemau seicolegol, ond fel y mae'n pwysleisio, mae hyn yn golygu nad oedd gan 75% sgoriau sylweddol. Yn 33, roedd y rhai oedd yn gadael gofal ar risg uwch o broblemau iechyd meddwl na'r rheiny na fu erioed mewn gofal, ond dim ond ar lefel debyg i fenywod o gartrefi difreintiedig. Roedd gan un mewn 5 o'r rhai oedd yn gadael gofal duedd tuag at iselder.

Defnyddiodd Cheung & Buchanan (1997) ddata NCDS hefyd. Cadwyd bod oedolion sydd wedi bod mewn gofal yn fwy tebygol o gael sgoriau uchel ar fesurau o broblemau emosiynol na'r rheiny na fuont erioed mewn gofal. Yn 23, roedd yn debygol y byddai gan

ddynion a menywod sgoriau uchel. Yn 33, roedd y rhai o ofal yn fwy tebygol na'r rheiny na fuont erioed mewn gofal o gael sgoriau uchel, ond roedd dynion yn fwy tebygol o gael sgoriau uchel na menywod. Defnyddiodd Cheung a Heath (1994) ddata NCDS i archwilio dylanwad patrymau gofal ar ganlyniadau addysgol. Cafwyd bod plant aeth i mewn i ofal am gyfnod byr pan yn ifanc yn perfformio yn ôl y cyfartaledd cenedlaethol; roedd gan blant aeth i mewn cyn 11 ac a arhosodd tan ar ôl 11 (9 mlynedd ar gyfartaledd) gymwysterau addysgol gwael a chyflawniad galwedigaethol is fyth.

O'u hystyried gyda'i gilydd awgryma'r astudiaethau hyn fod gan blant sydd wedi bod mewn gofal fwy o anawsterau na'r rhan fwyaf o blant. Fodd bynnag, nid yw effaith gofal yn ymddangos mor sylweddol â'r hyn y gellid fod wedi'i dybio. Ar gyfer yr holl fesurau nid oedd rhan fwyaf yr oedolion fu mewn gofal yn dangos problemau ac mewn perthynas â phroblemau seicolegol roedd bod mewn gofal yn ymddangos yn weddol debyg i ddod o gefndir difreintiedig. Yn hollbwysig, nid yw'r NCDS yn darparu gwybodaeth fanwl ar brofiadau plant a arweiniodd at ofal, ac ni all felly wahanu effaith camdriniaeth neu brofiadau niweidiol eraill o'r cyfraniad a wnaed gan fod mewn gofal. Yr un astudiaeth sy'n awgrymu effaith negyddol debygol gofal ei hun yw astudiaeth Cheung a Heath (1994), gan fod cyfnodau hwy mewn gofal yn gysylltiedig â gwaeth perfformiad addysgol, er hyd yn oed yma nid yw'n bosib gwahanu'r rhesymau pam fod plant yn treulio cyfnodau hwy mewn gofal ac effaith gofal ei hun.

Defnyddiodd Viner a Taylor (2005) set ddata gwahanol - carfan enedigaethau Prydeinig 1970 - i archwilio effaith mynd i mewn i ofal. Mae'r set ddata hon yn darparu gwybodaeth ar sampl 100% o blant a aned mewn un wythnos yn 1970 (16578 o blant). Dilynwyd y plant i fyny yn 5, 10, 16 a 30 oed - ac erbyn hynny 11,261 o blant oedd yn y sampl. Roedd cyfanswm o 343 (3.6%) o'r plant wedi bod mewn gofal ar ryw adeg. Hyd yn oed wrth ganiatáu ar gyfer dosbarth cymdeithasol, roedd plant fu mewn gofal yn fwy tebygol o fod yn ddigartref, o gael euogfarn, profi iechyd gwael neu gael problemau seicolegol ac roeddent yn llai tebygol o gyflawni dosbarth cymdeithasol uchel. Daw Viner a Taylor i'r casgliad canlynol : "public care in childhood is associated with adverse adult socioeconomic, educational, legal, and health outcomes in excess of that associated with childhood or adult disadvantage" (tud 894). Fodd bynnag, ni chafwyd cyfraddau uwch o broblemau iechyd meddwl, diweithdra na beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau a'u casgliad cyffredinol oedd fel y ganlyn: "the great majority [of children who enter care] do not experience significant long-term health or social adversity".

Mae rhai cyfyngiadau pwysig i'r astudiaeth hon. Yn gyntaf, collwyd tua hanner y plant oedd mewn gofal ar ryw adeg i'r dilyniant. Mae hyn yn esgor ar sampl dilyniant eithaf bach ac mae'n debygol o ddylanwadu ar y canfyddiadau (er enghraifft os oedd gan y plant a gollwyd i'r astudiaeth ganlyniadau arbennig o dda neu wael). Gallai hyn gyfrannu hefyd at rai canfyddiadau eithaf annisgwyl, fel y ffaith nad oedd gan oed ar adeg mynd i mewn i ofal na'r math o leoliad effaith ar ganlyniadau. Yn ail, er i ddosbarth cymdeithasol gael ei ystyried - dyma'r unig newidyn y caniatwyd ar ei gyfer. Mae'r astudiaeth felly yn cadarnhau bod plant sy'n mynd i mewn i ofal yn tueddu i wneud yn llai da na phlant o ddosbarth cymdeithasol economaidd is, ond ymddengys yn annhebygol bod hyn o ganlyniad i'r profiad o ofal ei hun. Os oedd gofal yn cynhyrchu'r canlyniadau negyddol hyn, byddem yn disgwyl cyfnodau hwy o amser mewn gofal i fod yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth.

Barn plant

Yn gyffredinol mae'r llenyddiaeth yn gymharol gyson: mae plant y gofelir amdanynt yn tueddu i siarad yn bositif am eu profiad gofal a'r rhesymau dros fod mewn gofal. Mewn un sampl (Barber & Delfabbro, 2005) dywedodd yr holl blant gafodd cyfweiliad eu bod yn 'fodlon' ar y gofal, ac mewn un arall (McKenzie, 1997) dywedodd fwyafrif y rhai oedd yn gadael gofal tra roeddent mewn gofal, nid oeddent wedi dymuno cael eu mabwysiadu, neu anaml yr oeddent wedi dymuno hynny. Gofynnodd un astudiaeth (Kufeldt et al, 1996) os mai dod i mewn i ofal oedd yr opsiwn gorau i'r plentyn ar y pryd; atebodd bron i 90% o'r plant 'ie', o'u cymharu ag 88% o weithwyr cymdeithasol a 79% o rieni biolegol. Mewn un gwerthusiad o faethu tymor byr (Aldgate & Bradley, 1999) dywedwyd bod rhieni yn 'bositif iawn' am y gwasanaeth yr oeddent wedi' dderbyn, a bod plant yn 'weddol hapus'. At hynny, roedd llawer o'r astudiaethau uchod yn cynnwys barn plant, ac yn gyffredinol roedd y plant yn bositif am eu profiad o ofal (e.e. Harwin et al, 2003; Sinclair et al, 2004).

Bylchau yn y llenyddiaeth

Roedd diffyg ymchwil oedd yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer y chwiliad ar gyfer lleoliadau â pherthynas a gofal preswyl. Mae felly'n werth sylwi yn gryno ar y meysydd hyn.

Lleoliadau â pherthynas

Mae lleoliadau o fewn y teulu ehangach wedi bod yn opsiwn erioed o fewn gwasanaethau plant, er hyd yma ymddengys mai ychydig yn gymharol o ymchwil Prydeinig sydd ar gael ar ganlyniadau lles plant sy'n profi lleoliadau o'r fath. Yn ffodus, mae Hunt (2003) wedi cynnal adolygiad trylwyr iawn a chymharol ddiweddar o ymchwil yn y maes hwn. Mae'n werth amlygu rhai o'r canfyddiadau o'r adolygiad hwn.

Yn gyntaf, mae Hunt yn sylwi sawl gwaith ar y diffyg astudiaethau sy'n edrych ar les plant a leolir mewn lleoliadau â pherthynas dros amser. Yn benodol, er bod rhai astudiaethau allweddol o ddiwedd y 1980au yn archwilio'r canlyniadau i blant a leolir mewn gofal â pherthynas, ychydig yn unig o ymchwil mwy diweddar a wnaed.

Yn ail, mae amrywiad mawr o fewn y categori "gofal gan berthynas". Mae gan bob ffurf arall ar ofal cyhoeddus i blant (h.y. gofal maeth, mabwysiadu a gofal preswyl) safonau cyffredin penodol y mae'n rhaid i leoliadau eu cwrdd cyn y gellir lleoli plentyn yno. Tra bod amrywiaeth fawr mewn lleoliadau o'r fath yn parhau, mae'n bosib bod yn gymharol sicr nad yw gofalwyr yn byw mewn amodau gor-boblogedig, yn profi tlodi, neu eu bod o blaid cosb gorfforol, a bydd eu hoed a'u systemau cefnogi hefyd wedi cael eu hasesu a'u cymeradwyo ar gyfer pob plentyn neu grŵp o frodyr a chwiorydd. At hynny, mae lleoliadau yn amrywio'n sylweddol. Mewn arfer, ar gyfer llawer o leoliadau mae manteision tybiedig lleoliad o fewn y teulu wedi'u cydbwysu yn erbyn cyfyngiadau posib y gofalwyr neu eu sefyllfa. O ganlyniad, mae lleoliadau â pherthynas yn fwy tebygol o gael problemau cymdeithasol, i fod gyda gofalwyr hŷn gyda risg uwch o salwch neu anawsterau cysylltiedig ac mewn rhai achosion efallai na fydd y safon o ofal yr un peth ag y byddai'n ofynnol gan ofalwr maeth. Ar y llaw arall, mae'r manteision tybiedig yn cynnwys plant yn cynnal cysylltiad â'r teulu, llai o ansefydlogrwydd mewn lleoliadau ac yn aml gwell parhad o ran ffrindiau ac ysgolion. Mae hyn yn golygu bod llunio casgliadau am natur a gwerth gofal gan berthynas yn arbennig o heriol.

Daw Hunt i'r casgliad nad oes tystiolaeth ddigonol i ddarparu sylfaen gref ar gyfer cymharu lleoliadau â pherthynas â mathau eraill o leoliadau. Yn gyffredinol, ymddengys

bod plant yn mynd i mewn i leoliadau â pherthynas gyda phroblemau llai difrifol na gofal maeth ffurfiol. Fodd bynnag, wedi dweud hynny mae ganddynt anawsterau sylweddol o'u cymharu â'r rhan fwyaf o blant, a chanfyddiad cyson ar draws astudiaethau ymchwil yw bod lleoliadau â pherthynas yn tueddu i dderbyn llai o gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol na lleoliadau mwy ffurfiol. Yn gyffredinol, cafodd astudiaethau a ddilynodd plant i fyny yn y 1980au ganlyniadau lles tebyg i'r rheiny mewn gofal â pherthynas a gofal maeth, er fel y noda Hunt, o ystyried bod y plant mewn gofal maeth yn tueddu i ddioddef gwaeth problemau ar adeg mynd i mewn i ofal gallai hyn awgrymu bod gofal maeth yn well wrth wella canlyniadau i blant ag anawsterau.

Mater hollbwysig wrth lunio'r canlyniadau i blant mewn gofal â pherthynas yw bod y teuluoedd yn aml yn profi anawsterau cymdeithasol. Yn benodol, cafodd yr ymchwil Americanaidd bod y teuluoedd yn llawer mwy tebygol o brofi amddifadedd difrifol ac ymddengys bod hyn yn gysylltiedig â thebygrwydd uwch o blant yn ymwneud â chyffuriau neu weithgareddau troseddol o'u cymharu â phlant mewn gofal maeth.

Yn gyffredinol, daw Hunt i'r casgliad gofalus canlynol:

- Mae angen mwy o ymchwil ar y canlyniadau i blant mewn gofal â pherthynas;
- Ymddengys ei fod yn cynnig dewis lleoliad positif i lawer o blant;
- Gallai fod risg uwch o ganlyniadau gwael yn gysylltiedig yn rhannol â thlodi am amddifadedd, ac yn rhannol ag anawsterau mewn rhianta plant heriol;
- Cymhlethir y risgiau hyn gan duedd i ddarparu cefnogaeth annigonol i helpu teuluoedd lleoliad â pherthynas oresgyn yr anawsterau cymdeithasol a brofir gan lawer ohonynt.

Ni ddylid ystyried gofal â pherthynas felly fel opsiwn rhad neu hawdd. Mae'n opsiwn y bydd angen arno fuddsoddi adnoddau sylweddol yn aml os yw i gyflawni canlyniadau positif i blant. Fodd bynnag, yn ogystal â bod y lleoliad gorau i lawer o blant sy'n mynd i mewn i'r system ofal, mae'r defnydd o leoliadau â pherthynas mewn theori yn lleihau'r galw am leoliadau gofal maeth a gofal preswyl. Ceir felly achos cryf dros hyrwyddo ei ddefnyddio pryd bynnag y bo'n bosib.

Gofal preswyl

Ymddengys bod y llenyddiaeth ar y canlyniadau i blant o ofal preswyl yn weddol brin. Mae hyn yn rhannol oherwydd i'r rhan fwyaf o blant mae gofal preswyl yn rhan fach o'u 'gyrfa' mewn gofal. Yn y Deyrnas Unedig, cwtogwyd ar y ddarpariaeth gofal preswyl yn sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf, ac mae bellach yn ffurfio gwasanaeth gweddilliol yn bennaf a ddarperir yn bennaf i blant na ellir dod o hyd i leoliadau maeth ar eu cyfer.

Mae gan ofal preswyl ddelwedd gyhoeddus negyddol yn gyffredinol. Cafwyd nifer o sgandalau ac ymchwiliadau yn nodi gweithdrefnau camdriniol o fewn sefydliadau preswyl. Mae profiadau fel cyfundrefn Pindown a'r cam-drin rhywiol mewn gofal preswyl yng Nghymru yn tynnu sylw at beryglon posib gofal preswyl. Fodd bynnag, ni fyddai'n iawn i ddod i'r casgliad bod gofal preswyl yn gysylltiedig â chanlyniadau gwael i blant. Yn wir, yn gyffredinol mae ymchwil wedi creu darlun cymharol bositif o brofiadau plant mewn gofal preswyl a chanlyniadau gofal o'r fath (gweler Kendrick, 2008). Er enghraifft, mewn astudiaeth o farn 223 o blant a phobl ifanc mewn gofal preswyl cafodd Sinclair a

Gibbs (1998) fod yn well gan y bobl ifanc yr opsiwn preswyl i fathau eraill o ofal a bod yn well gan y rheiny â phrofiad o leoliadau maeth ofal preswyl ar gymhareb o dri i un.

Mae hefyd yn bwysig ystyried y cyd-destun y mae gofal preswyl yn digwydd oddi mewn iddo. Mae unedau preswyl yn y Deyrnas Unedig bellach yn tueddu i ymdrin bron yn ddieithriad â phlant sydd â phroblemau difrifol iawn cyn iddynt fynd i mewn i ofal: yn gyffredinol, y duedd yw gosod plant na ellir dod o hyd i ofalwyr maeth ar eu cyfer mewn gofal preswyl. Ymddengys bod y DU yn defnyddio gofal preswyl i raddau llawer llai nawr nag ar unrhyw adeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'r niferoedd mewn gofal preswyl yn sylweddol is nag unrhyw wlad arall yng Ngorllewin Ewrop. Yn rhan fwyaf y gwledydd hyn ymddengys bod gofal preswyl wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus, gyda phlant yr ymddengys yn cael canlyniadau cymharol dda o'u cymharu â phlant Prydeinig mewn gofal (gweler Cameron a Boddy, 2008). Mae hyn ar y lefel fwyaf sylfaenol yn awgrymu nad yw gofal preswyl o reidrwydd yn niweidiol i blant. Yn wir, er bod angen ymchwil cymharol gryfach er mwyn llunio casgliadau pendant, ar y cyfan ni ymddengys bod sail i'r canfyddiad cyffredinol bod gofal preswyl yn beth gwael i blant. Fel y mae Little a Kelly (1998) yn dangos, i rai plant mae gofal preswyl yn ddewis positif gyda chanlyniadau cymharol dda; ac yn ôl Bullock et al (1998) hyd yn oed pan mai gofal preswyl yw'r dewis olaf gall fod yn fanteisiol i bobl ifanc heriol mewn cyfyngder mawr.

Canfyddiadau allweddol

Mae pedwar canfyddiad yn ymddangos yn benodol o bwysig o'r adolygiad hwn o'r ymchwil. Y cyntaf yw bod diffyg mawr o ran ymchwil mewn meysydd pwysig. Trafodir hyn ymhellach yn rhan nesaf yr adolygiad. O ystyried y diffyg tystiolaeth ymchwil hwn mae'n bwysig bod yn ofalus ynghylch y canfyddiadau.

Yr ail ganfyddiad allweddol oedd mai ychydig yn unig o dystiolaeth oedd bod gan y system ofal effaith negyddol ar les plant. Yn wir, roedd y darlun yn awgrymu i'r gwrthwyneb - ym mwyafrif helaeth yr astudiaethau gwelodd lles y plant. Roedd y darlun hwn yn weddol gyson. Mae'r patrwm cyffredinol hwn yn ein harwain i'r casgliad bod gofal yn gyffredinol yn brofiad positif i'r rhan fwyaf o blant a'i fod yn ymddangos ei fod naill ai yn gwella eu lles, neu ar y lefel fwyaf sylfaenol, nid yw'n niweidiol i'w lles.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod gofal cyhoeddus yn datrys yr holl broblemau y mae'r plant yn eu profi. Y trydydd canfyddiad allweddol oedd, o'u hystyried fel grŵp, hyd yn oed ar ôl profiadau gofal positif mae gan y plant yn rhan fwyaf yr astudiaethau llawer mwy o anawsterau nag y gellid eu disgwyl yn y boblogaeth yn gyffredinol. Nid yw gofal yn gwella'r holl broblemau sydd gan blant. Yn wir, nid yw hyn yn ymddangos fel nod realistig. Ni fyddai lleoliadau parhaol llwyddiannus hyd yn oed lle y mabwysiadodd rieni blant a'u trin fel eu plant eu hunain yn dadwneud canlyniadau cam-drin ac esgeulustod tra'n iau bob amser - yn enwedig i blant hŷn. Dim ond mabwysiadu yn gynnar yn ystod plentyndod sy'n cynnig posibilrwydd realistig o'r rhan fwyaf o blant yn cyflawni canlyniadau lles ar lefel debyg i'r boblogaeth yn gyffredinol. I blant eraill, mae angen i ofal fwyafu'r potensial sydd gan blant a chynnig iddynt y cyfle i fod yn bopeth y gallant fod. Er nid yw'n realistig i feddwl - o'u hystyried fel grŵp yn hytrach nag ar gyfer unrhyw blentyn unigol - y gall hyn esgor ar gywerthedd rhwng plant mewn gofal a phob plentyn arall.

Y pedwerydd canfyddiad allweddol yw bod astudiaethau yn cynnig golwg sylweddol ar pam fod lles plant mewn gofal yn tueddu i wella. Mae llawer o ddisgrifiadau o faterion

sy'n achosi pryder yn yr astudiaethau. Gellir gweld cyfraddau uchel o drosiant o weithwyr cymdeithasol, llawer o symudiadau o ran lleoliadau, a disgrifiadau o ofalwyr annigonol neu gamdriniol hyd yn oed drwy'r astudiaethau. Fodd bynnag, fe wnaeth blant yn gymharol dda am ddau reswm. Y cyntaf yw roedd yr amgylchiadau cartref y bu iddynt eu gadael (dros dro neu'n barhaol) yn annigonol iawn. Mae gofal felly yn ymddangos yn dda yn rhannol oherwydd ei fod yn cyferbynnu â theuluoedd sy'n cynnwys y mwyaf camdriniol ac esgeulus yn ein cymdeithas, a rheiny lle mae rhieni yn brwydro â'r problemau mwyaf dwys; mae ei lwyddiant cymharol yn debygol o fod i raddau helaeth oherwydd hyn. Fodd bynnag, yn ogystal disgrifiodd yr astudiaethau lawer o bethau positif am ofal. Yn fwyaf trawiadol mewn llawer o astudiaethau cafwyd disgrifiadau o ofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr a rheolwyr preswyl sy'n ffurfio perthnasoedd ac yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y plant y maent yn gyfrifol amdanynt yn ffynnu. Mae'n hawdd methu'r straeon hyn am lwyddiant yn yr amgyffrediad cyffredinol bod gofal yn methu. Yn aml mae'r trefniadau sefydliadol o gwmpas gofal yn annigonol. Fodd bynnag, mae'r unigolion gofalgar sy'n aml yn gwneud aberthau mawr dros y plant yn eu gofal i raddau helaeth yn gyfrifol am y patrwm positif cyffredinol o ganlyniadau lles a nodwyd yn yr ymchwil.

Trafodaeth

Cyn ystyried pa wersi y gellid eu dysgu o ganfyddiadau'r ymchwil mae'n bwysig cynnig sylwadau ar y bylchau pwysig iawn yn y sylfaen dystiolaeth bresennol. Mae tri maes yn ymddangos yn arbennig o bwysig. Y cyntaf yw'r diffyg ymchwil sy'n cymharu'n systematig blant tebyg sy'n derbyn gwahanol fathau o leoliad. Felly, ymddengys nad oes unrhyw astudiaethau Prydeinig sy'n edrych ar blant aeth i mewn i ofal a'r rheiny a allai fod wedi gwneud hynny er mwyn archwilio effaith gymharol gofal. Dim ond un astudiaeth wnaeth rhywbeth tebyg (cymharu plant mewn gofal hir dymor â'r rheiny y dyrannwyd iddynt weithiwr cymdeithasol ond yn byw gartref), a chynhaliwyd yr astudiaeth hon cyn Deddf Plant 1989. Ymddengys hyn, wrth fyfyr, yn fwlch trawiadol iawn yn y llenyddiaeth. Golyga mai sylfaen ymchwil gyfyng iawn sydd ar gael i arwain gweithwyr cymdeithasol, gwarcheidwaid a'r llysoedd mewn penderfyniadau hollbwysig ynghylch a ddylai plant fynd i mewn i ofal ai peidio. Yn yr un modd, ychydig o astudiaethau Prydeinig sy'n bodoli sy'n cymharu plant y'u dychwelwyd adref â'r rheiny sy'n aros mewn gofal. Cymharol ychydig sydd hefyd sy'n edrych ar effaith gwahanol fathau o leoliad (er enghraifft maethu hir dymor o'i gymharu â mabwysiadu) i blant sy'n weddol gymaradwy. Mae hyn yn rhwystro'n ddifrifol ein gallu i ddarparu arweiniad yn seiliedig ar ymchwil ar effaith gwahanol fathau o leoliadau. Nid oeddem wedi disgwyl y diffyg dystiolaeth hwn pan yn ymgymryd â'r adolygiad ac mae angen ei amlygu fel blaenoriaeth ar gyfer ymchwil yn y dyfodol i arwain polisi ac arfer. Mae Rushton (2003) yn dadlau achos gref dros astudiaeth ymchwil sylweddol iawn i fynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol hwn mewn data cymharol.

Yn ail, mae swmp yr ymchwil wedi canolbwyntio ar blant sy'n profi gofal arall parhaol. Eto, mae rhan fwyaf y plant sy'n dod i mewn i'r system ofal yn gwneud hynny am gyfnodau cymharol fyr. Rydym felly yn gwybod llawer mwy am ganlyniadau mabwysiadu neu faethu hir dymor neu hyd yn oed gyfnodau hir mewn gofal preswyl nac yr ydym am blant sy'n dod i mewn i ofal ond nad ydynt yn dod o hyd i leoliad arall parhaol. Mae rhai astudiaethau sy'n ystyried plant o'r fath (Fisher et al, 1989; Sinclair et al., 2004) ond rhoddwyd llawer llai o sylw ymchwil i hyn nag a roddwyd i fabwysiadu ac ychydig yn unig o astudiaethau yr ymddengys sydd wedi mesur effaith cyfnodau byrrach mewn gofal ar les plant.

Yn drydydd, ychydig yn unig, os o gwbl, sydd o gymhariaeth systematig o wahaniaethau rhwng awdurdodau lleol yn eu polisïau a'u harferion, y gwahanol gyd-destunau cymdeithasol y darperir gwasanaethau ynddynt a'r canlyniadau i blant. Er enghraifft, mae cyfran y rhai sy'n gadael gofal sy'n ennill cymwysterau TGAU yng Nghymru yn amrywio o 0 i 80% mewn gwahanol awdurdodau lleol Cymreig, ac ymddengys bod y patrwm hwn o amrywiadau eang yn y niferoedd sy'n mynd i mewn i ofal a'u canlyniadau yn cael ei adlewyrchu mewn ystod o wahanol ddangosyddion. Mae'r diffyg ymchwil hwn yn ein gadael yn ceisio llunio casgliadau am "arfer gorau" gan ddefnyddio cymharol ychydig o dystiolaeth ar effaith gwahanol ymagweddau awdurdodau lleol ar ganlyniadau i blant. Mae hyn yn anffodus, nid yn unig oherwydd bod ymchwil o'r fath yn rhoi "arbrofion naturiol" i ni sy'n caniatáu archwilio effaith gwahanol fathau o wasanaeth, ond hefyd oherwydd byddai'r ymchwil yn gymharol hawdd i'w gynnal a byddai'r casgliadau yn glir yn berthnasol i bolisi. Ar ei symlaf, byddai nodi'r awdurdodau lleol mwyaf effeithiol yn caniatáu i eraill ddysgu o'u llwyddiant.

Wedi amlygu'r gwendidau arwyddocaol iawn hyn yn y sylfaen dystiolaeth, roedd fodd bynnag rhai canfyddiadau clir iawn o'r llenyddiaeth a adolygwyd. Fel y nodwyd uchod, roedd plant yn tueddu i fynd i mewn i ofal neu symud i leoliadau parhaol gyda phroblemau difrifol iawn. Yn gyffredinol, mae'r profiad o ofal ar draws ystod o fathau o leoliadau yn lleihau'r anawsterau hyn. Ymddengys bod gofal yn brofiad da i'r rhan fwyaf o blant, a bod rhan fwyaf y plant yn elwa o'r gofal a roddwyd iddynt. Fodd bynnag, er gwaethaf y darlun hwn o welliant cyffredinol, o'u hystyried fel grŵp, mae plant mewn gofal yn parhau i ddangos ystod o anawsterau mwy amlwg na'r boblogaeth yn gyffredinol. Felly, i grynhoi, yn gyffredinol ymddengys bod gofal yn gwneud gwahaniaeth positif, er nad yw'n ddatrysiad 100% effeithiol i'r problemau y mae plant mewn gofal yn eu dangos.

Mae'n ymddangos bod y casgliad eang hwn yn cyferbynnu â'r amgyffrediad cyffredinol o ofal cyhoeddus yn y llywodraeth, y cyfryngau ac ymysg gwleidyddion a llunwyr polisi. Fel y dywed Laming (2007) (yn adroddiad ei weithgor ar Care Matters) "it is generally accepted, the record so far leaves much to be desired" (tud 2). Mewn gwirionedd, mae llawer o'r arbenigwyr allweddol yn anghytuno â'r casgliad hwn. Daeth Wilson et al (2003) yn eu hadolygiad o faethu ar gyfer y Sefydliad er Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol i'r casgliad bod plant yn gyffredinol yn gwneud yn well unwaith iddynt fynd i mewn i ofal maeth. Yn ystod y misoedd diwethaf mae arbenigwyr allweddol yn y maes fel Mike Stein, David Berridge ac Ian Sinclair wedi cyhoeddi neu siarad am y canlyniadau positif sy'n gysylltiedig â'r system ofal (Stein, 2006; Berridge, 2007; Sinclair et al., 2004). Ymddengys felly bod diffyg cyfateb difrifol rhwng amgyffrediad llunwyr polisi a'r gymuned academaidd.

O ystyried y gwahaniaeth hwn rhwng amgyffrediad gwleidyddol a chanfyddiadau empirig, mae'n bwysig archwilio'r casgliad cyffredinol hwn ymhellach. Mae iddo nifer o oblygiadau. Y cyntaf a'r pwysicaf yw ei fod yn golygu bod rhaid symud i ffordd oddi wrth ymagwedd yn seiliedig ar gred bod y system ofal yn gadael plant i lawr. Ychydig o dystiolaeth gredadwy sydd i gefnogi'r ddadl hon - er gwaetha'r ffaith ei bod wrth wraidd polisi llywodraeth y DU. Mae tystiolaeth ar ganlyniadau ac ymchwil sy'n gwranddo ar blant eu hunain yn tueddu i fod yn gyffredinol bositif am y system ofal.

Os nad yw gofal yn gyffredinol yn wael i blant, yna mae hyn yn arwain ar gwestiynau difrifol am brif ymagweddau'r 30 mlynedd diwethaf - sef canolbwyntio ar atal gofal a chreu dewisiadau parhaol eraill pan fydd plant yn cael eu symud allan o'u teuluoedd. Yn

eu hanfod, mae'r ymagweddau hyn yn ceisio lleiafu'r angen am ofal drwy leihau'r llif "i mewn" i ofal cyhoeddus o blant a chynyddu'r llif "allan" o deuluoedd eraill parhaol. Eto, os nad yw gofal yn gyffredinol wael i blant, ai yw hwn yn ymagwedd resymol?

Credwn fod casgliadau polisi pwysig yn dilyn o symud i ffwrdd o gred bod gofal yn gadael plant i lawr. Un ohonynt yw os ydym am wella'r canlyniadau sy'n bendant yn wael i blant mewn gofal mae angen i ni edrych yn fwy eang nag ar y system ofal ei hun. Mae angen i ni ystyried yr hyn sy'n digwydd *cyn* gofal a'r hyn sy'n digwydd *ar ôl* gofal. Yn ogystal, mae'n bwysig archwilio sut y gellir gwneud gofal cyhoeddus i blant mor bositif â phosib. Mae dweud mai ychydig o dystiolaeth sydd ei fod yn gadael plant i lawr yn wahanol iawn i ddweud na ddylem ymdrechu i'w wneud yn brofiad mor bositif â phosib. Mae'r adran nesaf yn ystyried goblygiadau'r canfyddiadau ar gyfer polisi ac arfer.

RHAN 3: SUT GELLID GWELLA GOFAL?

Beth sy'n digwydd cyn gofal?

Mae plant yn mynd i mewn i ofal gydag anawsterau difrifol. Bydd hyn bob amser yn wir i ryw raddau: mae gofal cyhoeddus yn darparu'r achubiaeth olaf i blant mewn teuluoedd na allant ddarparu'n ddigonol ar eu cyfer. Mae'r ffaith hon - yn hytrach na'r profiad o ofal ei hun - yn egluro pam fod gan blant mewn gofal broblemau mor ddifrifol o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Eto, os yw swmp yr anawsterau hyn yn dyddio o'r cyfnod cyn mynd i mewn i ofal, cwestiwn polisi hollbwysig yw: beth ellid ei wneud i leihau'r lefelau o anawsterau sydd gan blant cyn iddynt fynd i mewn i ofal?

Mae ymateb effeithiol yn gofyn am dair elfen:

- Gwasanaethau mwy effeithiol i wella lles plant i deuluoedd plant sydd "ar ymyl gofal";
- Gostwng y trothwy ar gyfer mynediad i ofal i rai plant;
- Asesu a gwneud penderfyniadau yn gynharach i blant y dylid eu tynnu allan o'r cartrefi.

Mae'n fuddiol ystyried pob un o'r rhain yn eu tro.

Gwasanaethau mwy effeithiol i wella lles plant i deuluoedd plant sydd "ar ymyl gofal"

Mae dadleuon cryf dros symud tuag at ddarparu gwasanaethau sy'n debygol o wella lles teuluoedd ac felly lleihau'r angen am ofal. Mae cyfrifiad Plant mewn Angen yn nodi bod pob plentyn mewn gofal yn costio ar gyfartaledd £680 tra bod pob plentyn y gweithir gyda hwy yn y gymuned yn costio £140. Yn Care Matters defnyddir y gwahaniaeth hwn i gynnig ailgyfeirio adnoddau o ddarparu lleoliadau i atal gofal. Fodd bynnag, mynegir barn eithaf sylfaenol y byddai symud adnoddau o'r system ofal i atal yn lleihau'r angen am ofal. Nid oes unrhyw dystiolaeth mewn gwirionedd i gefnogi'r ddadl hon. Yr unig dystiolaeth a nodir yw cred bod llai o blant yn dod i mewn i ofal mewn awdurdodau lleol sy'n gwario mwy ar wasanaethau cefnogi (Narey, 2007). Ni ymgwymerwyd ag archwiliad systemig o'r gred hon, ac mewn arfer mae'n anodd gwahanu'r gwahaniaethau cymdeithasol economaidd rhwng awdurdodau lleol a'u gwario ar wasanaethau cefnogi.

Ymgwymerwyd ag un astudiaeth fu'n ystyried hyn gan Schofield et al (2005). Nododd yr ymchwilyr amrywiadau eang rhwng awdurdodau lleol yn y gyfradd o blant y gofelir amdanynt arhosiad hir (pedair blynedd neu fwy mewn gofal) o 6 i 37 fesul 10,000. Bu Schofield et al yn pendroni ai un o'r rhesymau dros yr amrywiad hwn oedd diffyg adnoddau cefnogi teuluoedd i gyflawni ailuno, ond awgrymwyd hefyd y bydd awdurdodau lleol gyda throthwyau uwch i blant sy'n dechrau derbyn gofal yn tueddu i gael plant yn aros am gyfnod hwy oherwydd bod mwy o broblemau ganddynt a'i fod yn anos eu dychwelyd adref. Mewn geiriau eraill, gallai darparu gwasanaethau cefnogi leihau'r gyfran o blant "arhosiad hir" mewn gofal - ond byddai ei wneud yn haws mynd i mewn i ofal yn gwneud hynny hefyd (ac felly cynnwys mwy o blant y gellid eu dychwelyd adref yn llwyddiannus). Y gwir yw bod angen mwy o ymchwil yn y maes hollbwysig hwn, fel yr argymhellir gan Narey (2007).

Tystiolaeth gyfyngedig sy'n bodoli hefyd ynghylch pa fathau o wasanaethau cefnogi teuluoedd allai atal yr angen am ofal. Yn yr adroddiad sy'n gysylltiedig â hwn rydym yn adolygu'r llenyddiaeth ar atal gofal mewn manylder (Forrester et al., 2007). Mae'n werth nodi rhai pwyntiau allweddol o'r adolygiad hwnnw. Yn gyntaf, mynegwyd cred sydd rywfaint yn sylfaenol gan lywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd darpariaeth eang o ymyraethau cefnogi fel Cychwyn Cadarn yn lleihau'r angen am ymyraethau gwaith cymdeithasol mwy dwys, yn cynnwys y tybir yr angen am ofal cyhoeddus (DfES, 2003). Mewn gwirionedd, nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r gred hon. Nid yw Cychwyn Cadarn ar y cyfan yn ymddangos fel rhywbeth sydd wedi cael effaith bositif sylweddol ar y teuluoedd mwyaf bregus, y mae llawer ohonynt heb ddefnyddio'r gwasanaeth (Gwerthusiad Cenedlaethol o Cychwyn Cadarn, 2005), ac mae'r dystiolaeth gyfyngedig ar ei effaith ar gyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol yn awgrymu yn gyffredinol nad yw wedi eu lleihau (Carpenter et al., 2007). At hynny, nid yw ymyraethau eang eraill fel Homestart - waeth bynnag eu rhinweddau eraill - wedi cael unrhyw effaith ar lefelu o fynediad i ofal (McAuley et al., 2006). Yn yr un modd, mae ymchwil diweddar yn yr Unol Daleithiau wedi gweld canlyniadau siomedig gan wasanaethau atal seiliedig yn y cartref. Ni chafodd Duggan et al (2007) na Caldera et al (2007) unrhyw effaith ar gam-drin ar gyfer gwasanaethau ymweld â'r cartref a gynlluniwyd i atal cam-drin plant. Yn wir, mae'r gred y byddai gwasanaethau o'r math hwn yn lleihau'r angen am ofal cyhoeddus yn dangos diffyg gwybodaeth am natur gofal. Mae plant yn mynd i mewn i ofal dim ond pan fydd teulu wedi chwalu yn y modd mwyaf difrifol a pharhaus fel arfer. Mae'n gynyddol gysylltiedig nid yn unig ag anawsterau cymdeithasol, ond hefyd gyda rhieni yn cam-drin cyffuriau neu alcohol, salwch meddwl neu anhawster dysgu neu gam-drin rhywiol gan riant. Waeth bynnag yw rhinweddau cynlluniau fel Cychwyn Cadarn a Homestart, nid ydynt yn debygol o gael effaith sylweddol ar deuluoedd yr effeithir arnynt gan yr anawsterau cymhleth a pharhaus hyn.

Yn wyneb hyn, nodwyd cynlluniau yn seiliedig ar fodel Homebuilders o Gadw Teuluoedd Dwys gan lywodraeth y DU mewn dogfennau sy'n gysylltiedig â Care Matters fel enghreifftiau o ragoriaeth mewn atal yr angen am ofal (Narey, 2007). Mewn gwirionedd, gwerthuswyd model Homebuilders yn helaeth a chadwyd nad yw'n cael unrhyw effaith, neu effaith fach iawn, ar leihau'r angen am ofal i blant. Mae rhai eithriadau - fel y prosiect Opsiwn 2 yng Nghymru, sydd wedi cyfuno Homebuilders â chyfweld cymhellol ac ymagwedd seiliedig ar ddatrysiadau i ddarparu yr hyn yr ymddengys yn wasanaeth sy'n lleihau'r angen am ofal cyhoeddus (Forrester et al., 2007). Fodd bynnag hyd yn oed yn yr enghraifft brin hon o wasanaeth a werthuswyd yn gywir ac sy'n lleihau'r angen am ofal cyhoeddus, cyflawnir y lleihad hwn drwy blant yn cymryd yn hwy i fynd i mewn i ofal ac yn dychwelyd allan o ofal yn gynt. Yn amlwg, nid yw - ac ni fyddai'n honni ei fod - yn ddatrysiad sy'n atal yr angen am ofal.

Y sefyllfa felly yw bod galw am gynyddu'r defnydd o ymyraethau ataliol a chefnogi yn y gobaith y gallent leihau'r angen am ofal cyhoeddus. Ond nid syniad newydd yw hyn. Mae wedi bod wrth wraidd polisi i blant mewn risg ers 1970 o leiaf. Ceisiwyd ei roi ar waith yn helaeth yn UDA a gwledydd eraill. Pe byddai'n beth hawdd ei gyflawni, mae'n rhesymol credu y byddai wedi cael ei gyflawni erbyn hyn. Mewn gwirionedd, ar hyn o bryd nid oes corff tystiolaeth yn dangos sut y gellir cyflawni lleihad yn yr angen am ofal cyhoeddus i blant mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Nid yw hyn yn golygu o bell ffordd *na ellir* lleihau'r angen am ofal drwy gynyddu cyllid gwasanaethau cefnogi. Ymddengys yn debygol bod hyn yn bosib a chredwn ei fod yn

flaenoriaeth polisi. At hynny, mae dangosyddion positif o ymyraethau penodol a all wneud gwahaniaeth. Yn gyntaf, mae ymyraethau yn gweithio gyda phlant yn eu harddegau gydag ymddygiadau “problematic” wedi dangos gallu i leihau’r angen am ofal mewn cyd-destun Americanaidd (gweler Forrester et al., 2007). Yn ail, mae ymyraethau fel Opsiwn 2 yn cynnig addewid o lai o angen am ofal i rai plant mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Yn drydydd, mae’n debygol y gellir nodi ffyrdd effeithiol eraill o weithio, ac y gellir addasu ymyraethau y dangoswyd eu bod yn effeithiol mewn sefyllfaoedd eraill neu gyda grwpiau penodol i leihau’r angen am ofal cyhoeddus i rai plant.

Fodd bynnag, yr hyn sy’n hollbwysig yw nad yw’r camgymeriadau sy’n gysylltiedig â Chychwyn Cadarn yn cael eu hailadrodd. Yn benodol, nid yw’n debygol y bydd symud adnoddau yn unig o leoliadau i “atal” yn cyflawni lleihad yn yr angen am ofal. Y perygl yw y bydd ymgeisiadau heb gysyniad cadarn a heb eu gweithredu’n gywir i leihau’r angen am ofal yn methu a deuir i’r casgliad anghywir nad yw’n bosib lleihau’r angen i blant fynd i mewn i ofal. Yn hytrach, mae angen datblygu ymyraethau sydd wedi’u cynllunio’n dda ac sy’n seiliedig ar dystiolaeth, a dylai’r cyllid ar gyfer y rhain gynnwys gwerthusiadau cadarn er mwyn gallu nodi a lleadaenu’r ymagweddau mwyaf effeithiol - a gellir addasu neu anghofio am ymyraethau llai defnyddiol ar gam cynharach.

Lleihau’r trothwy ar gyfer mynediad i ofal i rai plant

Mae ffocws ar leihau’r angen am ofal - ac felly codi trothwyau gofal yn gyffredinol - wedi’i wreiddio’n gadarn o fewn trafodaethau am y system ofal. Mae tair dadl wedi bod yn benodol bwysig wrth greu’r newid hwn, ac mae’n werth ystyried pob un yn gryno. Yn gyntaf, mae’r dystiolaeth ymchwil sy’n gysylltiedig ag arfer gwaith cymdeithasol yn y 1970au yn awgrymu bod diffyg ffocws a thueddu tuag at segura heb ei gynllunio i blant mewn gofal. Nid oedd y dystiolaeth ar ganlyniadau yn gadarn, ond ymddengys yn rhesymol i gymryd yn ganiataol yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynir mewn astudiaethau fel un Rowe a Lambert bod llawer o blant wedi eu gadael i lawr gan ofal cyhoeddus yn y cyfnod hwn. Eto, ni chafodd astudiaethau mwy diweddar yr un darlun. Roedd Harwin et al (2003) a Hunt a McLeod (1999) yn tueddu i ganfod bod cynlluniau gofal clir ar gyfer y plant ac yn gyffredinol roedd gweithwyr cymdeithasol yn ceisio eu gweithredu. Nid oedd y systemau a’r arferion yn berffaith o bell ffordd, ac yn benodol roedd mathau arbennig o blant y gwnaed penderfyniadau gwael ar eu cyfer, ond mae’r ymagwedd gyffredinol yn ymddangos yn wahanol iawn i’r hynny a ddisgrifiwyd yn y 1970au. Nid yw felly yn ymddangos yn gredadwy i seilio beirniadaeth o ofal cyhoeddus ar y corff hwn o ymchwil sydd wedi dyddio.

Ail fater hollbwysig yw cost. Rhwng 1994 a 2006 mae cost wirioneddol y system ofal wedi dyblu ac mae bellach dros £3 biliwn yn flynyddol yn y DU (Narey, 2007; DfES 2007). Yn anochel, mae ymyraethau a anelir at leihau’r angen i blant fynd i mewn i ofal a chynyddu’r cyflymder y mae plant yn gadael gofal yn debygol o ymddangos yn ddeniadol o safbwynt ariannol. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau difrifol mewn ymagwedd o’r fath. Yn wir, mae’r ffaith y cafwyd cynnydd mor sylweddol yng nghost gofal cyhoeddus ar yr union adeg pan gafwyd y pwyslais mwyaf ar atal a sefydlogrwydd yn awgrymu o leiaf y posibilrwydd nad yw’r ymagwedd hon mewn gwirionedd yn arbed arian. Er enghraifft, gallai “atal” gofal yn y tymor byr (naill ai drwy beidio â chymryd plant i mewn i ofal neu drwy eu dychwelyd adref yn gyflym) esgor ar blant yn fwy tebygol o fynd i mewn i ofal pan maent yn hŷn, profi mwy o anwsterau a bod yn ddrutach darparu lleoliadau ar eu cyfer. Yn hollbwysig, gallai atal wneud dewisiadau parhaol eraill yn amhosib os yw’n cyfrannu at oedi difrifol mewn plant yn mynd i mewn i ofal a’u bod yn mynd i mewn i ofal

gyda phroblemau mwy difrifol. Mae *Beyond Care Matters* (Narey, 2007) yn amcangyfrif mai'r gost flynyddol ar gyfartaledd ar gyfer plentyn y gofelir amdano yn 2005/6 oedd £33,000 ond ei fod yn codi i £50,000 i blant â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol ac i blant ag anghenion cymhleth mae'n £95,000. Felly gallai ymyrraeth effeithiol arbed arian - ond gallai ymgeisiadau aneffeithiol i atal gyflawni'r gwrthwyneb yn llwyr.

Mae trydydd ffactor sy'n ategu'r dadleuon ar gyfer "atal" ac ar gyfer "sefydlogrwydd" yn llai cadarn ond yr un mor bwysig. Hwn yw cred bendant mewn pwysigrwydd bywyd teuluol "normal" i blant. Mae Deddf Plant 1989 yn nodi'n glir mai'r peth gorau i blant yw cael eu magu yn eu teuluoedd eu hunain, ac mae cred mai rhywbeth mor agos â phosib at fywyd teuluol "normal" yw'r peth gorau i blant sy'n treiddio drwy'r ymdrech i drefnu mabwysiadu neu ofal plant hir dymor i blant yn y system ofal. Gallai'r gred hon fod yn wir i lawer o blant. Ymddengys yn glir i blant iau ac i blant y mae eu perthynas â'u teulu genedigol wedi chwalu, teuluoedd eraill parhaol sydd orau fel arfer. Eto mae rhesymau i feddwl bod y gred hon wedi llunio'r system ofal Brydeinig i blant mewn ffyrdd nad ydynt yn ddefnyddiol; ei fod wedi creu system ofal nad yw'n darparu cystal ag y gallai i'r plant sy'n mynd i mewn iddo neu i blant sy'n aros adref a allai elwa o ddod i mewn i ofal.

Yn benodol, os ydym o ddifrif am leihau problemau plant mewn gofal mae angen i ni ystyried lleihau'r trothwyau ar gyfer mynediad i ofal i rai plant. Mae aros tan i blant brofi niwed sylweddol wedi cyfrannu at y gyfran gynyddol uchel o'r boblogaeth ofal â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol difrifol (Schofield, 2005). Byddai ei wneud yn haws i blant fynd i mewn i ofal yn helpu i atal peth o'r niwed hwn a byddai'n debygol o gael effaith positif ar y plant sy'n mynd i mewn i ofal.

Yn gynyddol, cafodd gofal cyhoeddus ei drin fel dewis olaf. Mae hyn yn arwain at blant yn cael eu cadw yn eu cartrefi pan ddylid gwneud hynny. Mae'n edrych yn debygol y bydd y gwall hwn yn cael ei gymhlethu gan argymhellion Care Matters. Mae'n ddigon gwael bod lleihad yn nifer y plant yn mynd i mewn i ofal wedi cael ei ystyried o ddifrif fel dangosydd perfformiad i'r llywodraeth (Narey, 2007), ond mae Care Matters yn parhau i gymryd yr ymagwedd syml hon nad yw'n ddefnyddiol i atal gofal. Er enghraifft, dadleuir mai uwch reolwyr yn unig ddylai allu awdurdodi derbyn i ofal ac y dylid gwneud mwy o ymdrech i reoli'r trothwy hwn. Mae'n anodd gweld cyfiawnhad lles plant ar gyfer yr argymhelliad hwn, ac ymddengys yn bosib y bydd yn arwain at reolwyr yn gwrthod mynediad i blant y dylent ddod i mewn i ofal. Mae hwn yn ddangosiad syml o athroniaeth "mae gofal yn beth gwael" Care Matters.

Yn hytrach, byddem yn dadlau y dylid cael mwy o barodrwydd i ddarparu gofal cyhoeddus i blant sy'n byw mewn teuluoedd gydag anawsterau cronig a difrifol. Caniatáu i blant fynd i mewn i ofal ar bwynt cynharach yw'r un newid mewn polisi y byddai'n gwella lles plant mewn gofal cyhoeddus fwyaf. Wedi darllen y llenyddiaeth byddem yn amlygu'r ystyriaethau canlynol mewn perthynas â'r defnydd o ofal cyhoeddus:

- Mae plant iau yn gwneud yn arbennig o dda mewn dewisiadau eraill parhaol, ac mae oedi wrth wneud penderfyniadau yn lleihau'r posibilrwydd o ganlyniadau positif.
- Dylai gwerthfawrogiad realistig o lwyddiant cyfyngedig gwasanaethau i atal gofal hysbysu arfer a llunio polisiâu. Ni ddylid cadw plant gartref ar sail optimistaeth ddi-sail am allu rhieni i newid.

- Mae corff cynyddol gryf o dystiolaeth nad yw ymgeisiadau lluosog i adfer yn debygol o lwyddo. Ymddengys mai'r ymgais cyntaf i ddychwelyd adref yw'r mwyaf tebygol o lwyddo o bell ffordd.
- Mae plant yn aml yn elwa ar gyfnodau byr dymor a thymor canolig mewn gofal – a dylid cael parodrwydd felly i ddarparu gwasanaethau o'r fath. Gallai'r cysyniad bod gofal yn wael i blant fod yn cyfrannu at amharodrwydd i ddarparu gwasanaeth o'r fath. Nid oes rhaid i gyfnodau gofal tymor canolig fod heb strwythur nad arwain at “segura”.

Beth sy'n digwydd ar ôl gofal?

Mae consensws eang erbyn hyn bod y ddarpariaeth wrth adael gofal i blant yn gwbl annigonol. Yn wahanol i'r ymchwil ar effaith y gofal ei hun, mae tystiolaeth cymharol gref i gefnogi'r gred hon. Er bod gofal maeth neu ddarpariaeth breswyl o ansawdd da yn aml yn darparu llawer o'r nodweddion hanfodol sy'n gysylltiedig â gofal mewn teulu - fel gofal a chysondeb, edrych ar ôl anghenion materol ac oedolion cyfrifol â diddordeb mewn sicrhau bod plant yn cyflawni popeth o fewn eu gallu - mae gadael darpariaeth ofal yn 18 oed (neu'n iau) yn wahanol iawn. Yn y rhan fwyaf o deuluoedd, mae plant yn derbyn cefnogaeth emosiynol ac ariannol wrth iddynt dyfu'n oedolion, ac nid oes pwynt mympwyol lle mae hyn yn dod i ben. I'r gwrthwyneb, mae gofal yn dod i ben yn eithaf mympwyol yn 18 (neu'n gynt), ac mae'r gefnogaeth sy'n dilyn gofal wedi'i gyfyngu gan amser ac yn aml nid yw'n seiliedig ar berthnasoedd gofalgar parhaus. Nid oes cyfleuster ar gyfer dychwelyd i ofal pan fydd unigolyn yn wynebu argyfwng neu anhawster, neu ar gyfer symud yn ôl i mewn i ofal maeth neu leoliadau preswyl adeg y Nadolig neu wyliau eraill.

Mae'n arwyddocaol bod un o'r astudiaethau gorau o ran ei chynllun ar effaith gofal (Rutter a Quinton, 1989) wedi cael nad y profiad o ofal yn bennaf sy'n arwain at fenywod ifanc yn cael problemau yn ymdopi â'u plant - roedd yn ymwneud mwy â'r diffyg cefnogaeth gymdeithasol wrth drosglwyddo o fod yn blentyn i fod yn oedolyn. Fel mae Sinclair et al (2004) yn nodi, rydym yn creu “cyfalaf cymdeithasol” sylweddol drwy effaith positif gofal cymdeithasol ar blant ag anawsterau - ac rydym yn rhy aml yn gwastraffu hyn yn y ffordd ddigynllun ac anghefnogol yr ydym yn caniatáu i'r plant symud i fod yn oedolion. Mae'r diffyg cefnogaeth hyn i oedolion ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn debygol o achosi mwy o'r canlyniadau gwael a gysylltir â'r rhai sy'n gadael gofal na'r system ofal ei hun. Trafodir ffyrdd o fynd i'r afael â hyn yn ein hargymhellion. Maent hefyd yn agwedd gadarnhaol - seiliedig ar dystiolaeth - ar y cynigion Care Matters (DfES, 2007).

Tuag at Drydydd Opsiwn o “Ofal Positif”: Nid Atal, Na Sefydlogrwydd

Elfen hollbwysig yn ein dadansoddiad yw y dylem symud i ffwrdd o farn fod y system ofal yn gadael plant i lawr ac adeiladu ar dystiolaeth am ei heffeithiolrwydd i wella canlyniadau i blant. Amlygir yr anawsterau gyda'r ymagwedd bresennol ymhellach o'i chymharu â'n cymdogion ar y cyfandir. Mae llawer o broblemau'n codi wrth gymharu systemau gofal cyhoeddus i blant. Un yw bod y diffiniadau o ofal yn wahanol mewn ffyrdd pwysig (Thoburn, 2000). Yn fwy sylfaenol, llunnir gofal cyhoeddus gan ystod o wasanaethau a chredoau eraill ac mae hyn yn ei wneud yn anodd iawn dehongli tystiolaeth ar “ganlyniadau”. Fodd bynnag, ymddengys yn debygol yn rhan fwyaf y

gwledydd diwydiannol bod mwy o blant yn dod i mewn i ofal fesul pen y boblogaeth, i rai o'r gwledydd hyn mae'r nifer lawer yn uwch ac ni ymddengys bod unrhyw wlad ddatblygiedig sy'n cymryd nifer sylweddol lai o blant i mewn i ofal cyhoeddus (Selwyn and Sturgess, 2003; Thoburn, 2000). Mae hyn er gwaethaf y ddarpariaeth les mwy hael a'r cyfraddau is o ystod o broblemau cymdeithasol allweddol (fel cam-drin cyffuriau ac alcohol) yn nifer o'r gwledydd hyn. O fewn Ewrop ceir llai o ddefnydd hefyd o fabwysiadu neu ddewisiadau eraill parhaol, a mwy o ddefnydd o ofal preswyl (Rushton, 2003). Mae hyn yn rhannol oherwydd mewn rhai gwledydd, fel Sweden, mae pwyslais cryf iawn ar hawliau rhieni ac mae'n amhosib cael plentyn wedi'i fabwysiadu yn erbyn ewyllys y rhiant. Ni ymddengys bod hyn yn ymagwedd briodol os mai lles plant yw ein prif ffocws.

Ar y llaw arall, mewn llawer o'r cymdogion Ewropeaidd nid yw gofal cyhoeddus yn cael ei ystyried yn beth mor negyddol ag y tybir ei fod yn y DU. Nid yw ychwaith yn cael ei weld fel y gwrthwyneb i gefnogi teuluoedd. Yn hytrach, darperir gofal arall yn aml fel *ffurf ar gefnogi teuluoedd*. Yn y model hwn, gellir darparu sefydlogrwydd gan y teulu genedigol, hyd yn oed os yw'r gofal gwirioneddol i blant yn cael ei ddarparu drwy'r system gofal cyhoeddus. Mae plant yn mynd i mewn i ofal am gyfnod o amser, ond maent yn parhau i gael cysylltiad â'u teulu genedigol a thybir y byddant yn cynnal y cysylltiadau hyn gydol eu bywyd fel oedolion. O ganlyniad, mae llawer llai o blant yn cael eu symud o'u teuluoedd yn barhaol a'u gosod mewn dewisiadau eraill fel maethu hir dymor neu fabwysiadu. At hynny, ar gyfer y nifer cymharol fach o blant na all gynnal cysylltiad â'u teulu, neu nad ydynt yn dymuno gwneud hynny, ond sy'n annhebygol o gael hyd i deulu arall "parhaol", mae'r system gofal cyhoeddus mewn gwell sefyllfa yn y gwledydd hyn i ddarparu hafan ddiogel ac amgylchedd meithringar gydol eu plentyndod ac wrth iddynt ddod yn oedolion. Mae hyn yn ymagwedd at ofal yr ydym yn ystyried y mae'n debygol o wella canlyniadau i lawer o blant mewn gofal cyhoeddus neu mewn perygl o fynd i mewn iddo. Mae'n anelu at symud y ffocws o sefydlogrwydd i sefyllfa sefydlog, er mwyn ffrwyno elfennau positif y system ofal.

Yn wir, o edrych arno yn y modd hwn daw'n bosib dadlau bod ein hymagwedd at ofal wedi bod heb gydymdeimlad tuag at yr anawsterau difrifol y mae rhai teuluoedd yn eu hwynebu, a heb fod o gymorth i'r plant sydd ynghlwm yn yr anawsterau hyn. Mae wedi creu deuliaeth bendant rhwng plant y'u cedwir gartref a'r rhai sy'n mynd i mewn i ofal gydag ychydig yn unig o ffocws polisi nac arfer ar unrhyw beth rhwng atal a dewisiadau parhaol eraill i'r teulu genedigol. Y duedd yw bod plant sy'n byw gartref mewn teuluoedd ag anawsterau difrifol yn cael cynnig lefelau cymharol isel o gefnogaeth ac ymddengys bod risg uchel y bydd y plant hyn yn mynd i mewn i ofal pan fyddant yn hŷn, yn aml wedi'u niweidio a'u brifo gan brofiadau teuluol annigonol. Ar y llaw arall, pan na all blant fyw gartref mae polisi yn pwysu am benderfyniadau cyflym am ddewisiadau eraill parhaol. Yn y canol mae'r mwyafrif o blant sy'n mynd i mewn i ofal am gyfnod, ond sy'n dychwelyd adref ar ôl rhai misoedd neu flynyddoedd mewn gofal, a'r plant sy'n segura mewn teuluoedd lle maent yn profi camdriniaeth ac esgeulustod oherwydd bod ein trothwyau ar gyfer mynediad i ofal wedi dod mor uchel. Y rhain yw'r plant anweledig. Ychydig yn unig o sylw a roddwyd iddynt gan ymchwil. Mae llunwyr polisi yn canolbwyntio ar atal gofal a chynyddu'r defnydd o ddewisiadau eraill parhaol. Ychydig iawn sydd wedi'i ysgrifennu na'i ymchwilio am sut y gallwn ddarparu orau ar gyfer y plant hyn.

Yr hyn yr ydym yn awgrymu yw ein bod yn symud i ffwrdd o'r ddeuliaeth hon drwy greu trydydd categori penodol - Gofal Positif fel *gofod diogel* rhwng atal a sefydlogrwydd. Ar

gyfer rhan fwyaf y plant hyn bydd gofal yn ffurf ar gefnogaeth deuluol yn hytrach na'r gwrthwyneb iddi fel y tybir yn aml ar hyn o bryd. I rai dylai fod yn amgylchedd sefydlog lle y mae eu hanghenion yn cael eu cwrdd yn y tymor canolig neu'r hir dymor.

Elfennau allweddol wrth ddarparu Gofal Positif fel gofod diogel

Sut mae cwrdd ag anghenion plant orau pan mae gofal cyhoeddus yn ofod diogel yn hytrach nag yn lleoliad "parhaol"? Byddem yn awgrymu'r elfennau allweddol canlynol er mwyn gwneud gofal yn brofiad mor positif â phosib:

1. *Pwyslais ar sefyllfa sefydlog (yn hytrach na sefydlogrwydd).*
Elfen bwysicaf hyn yw cynyddu pa mor sefydlog yw lleoliadau – ond mae elfennau eraill i fod yn sefydlog hefyd. Mae'n cynnwys bod yn sefydlog mewn perthnasoedd teuluol, gweithwyr cymdeithasol a ddyrannwyd ac ysgolion.
